

# Cydraddoldeb yng Ngogledd Cymru: Adroddiad data a thystiolaeth



## Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru



Cefnogwyd yr adroddiad hwn gan BGC Gwynedd a Môn, BGC Conwy a Sir Ddinbych a BGC Sir y Fflint a Wrecsam, drwy gyllid cymorth rhanbarthol Llywodraeth Cymru ar gyfer byrddau gwasanaethau cyhoeddus.

Ymchwiliwyd ac ysgrifennwyd yr adroddiad gan Wasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth Cyngor Gwynedd.

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

## Cynnwys

1. Pwrpas yr Adroddiad.....	7
2. Cyflwyniad / Dull a Ddefnyddiwyd.....	8
3. Ystadegau Allweddol ar gyfer Gogledd Cymru .....	9
4. Addysg.....	14
4.1 Cyrhaeddiad Addysg Plant a Phobl Ifanc .....	14
4.1.1 Addysg Blynyddoedd Cynnar .....	14
4.1.2 Cyrhaeddiad Oedran Gadael Ysgol.....	16
4.1.3 Effaith Rhagfarn ar sail Rhyw a Stereoteipio ar Ganlyniadau Addysgol .....	17
4.1.4 Effaith Tlodi ac Allgau Cymdeithasol ar Gyrhaeddiad Addysgol .....	17
4.2 Gwaharddiadau Ysgol, Bwlio a NEET .....	17
4.2.1 Gwaharddiadau o'r Ysgol .....	17
4.2.2 Bwlio mewn Ysgolion .....	17
4.2.3 NEET (heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) .....	18
4.3 Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes.....	19
4.3.1 Addysg Uwch, gan gynnwys Dewis Pwnc, Cyrhaeddiad a Chymwysterau Lefel-gradd .....	19
4.3.2 Dysgu Gydol Oes .....	21
5. Gwaith.....	23
5.1 Cyflogaeth .....	23
5.1.1 Cyflogaeth .....	23
5.1.2 Diweithdra.....	26
5.1.3 Cyflogaeth Ansicr .....	29
5.1.4 Triniaeth Annheg, Bwlio ac Aflonyddu yn y Gweithle.....	29
5.2 Enillion.....	29
5.2.1 Bylchau Cyflog mewn Canolrif Enillion fesul Awr .....	29
5.2.2 Tâl Isel .....	31
5.2.3 Gwahaniaethau Rhywedd mewn Enillion fesul Galwedigaeth, Sector a Diwydiant.....	31
5.3 Arwahanu Galwedigaethol.....	33
5.3.1 Arwahanu fertigol a llorweddol .....	33
5.3.2 Arwahanu o fewn Prentisiaethau .....	34
6. Safonau Byw.....	37
6.1 Tai.....	37
6.1.1 Gorlenwi a Llety Addas .....	37
6.1.2 Digartrefedd.....	39
6.1.3 Budd-daliadau Tai .....	42

6.1.4 Daliadaeth Tai .....	43
6.1.5 Tai ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr .....	48
6.1.6 Tai Hygyrch i Bobl Anabl .....	49
6.1.7 Tai i Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches .....	50
6.2 Tlodi.....	50
6.2.1 Tlodi Cymharol ac Amddifadedd Materol Difrifol.....	50
6.2.2 Nawdd Cymdeithasol a'r System Budd-daliadau .....	51
6.2.3 Profiadau Grwpiau Risg-uwch: Tlodi Plant a Thlodi Pobl Anabl, Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches .....	51
6.2.4 Tlodi Bwyd a Thanwydd .....	51
6.2.5 Dosbarthiad Incwm a Chyfoeth .....	51
6.3 Gofal Cymdeithasol .....	52
6.3.1 Mynediad at Ofal Cymdeithasol.....	52
6.3.2 Effaith Cyllido Gofal Cymdeithasol ar Ddarpariaeth Gwasanaethau .....	52
6.3.3 Ansawdd Gofal Cymdeithasol .....	52
6.3.4 Dewis a Rheolaeth Dros Gefnogaeth i Alluogi Byw'n Annibynnol ac Eiriolaeth Annibynnol .....	52
6.3.5 Urddas a Pharch mewn Gofal Cymdeithasol .....	52
6.3.6 Effaith Gofalu ar Ofalwyr .....	52
6.3.7 Cam-drin ac Esgeulustod.....	56
7. Iechyd.....	58
7.1 Mynediad at Iechyd .....	58
7.1.1 Amseroedd Aros ac Atgyfeirio .....	58
7.1.2 Materion Mynediad ar gyfer Grwpiau Risg-uwch.....	59
7.2 Canlyniadau Iechyd .....	59
7.2.1 Statws Iechyd Cyfredol Pobl.....	59
7.2.2 Canlyniadau Iechyd ar gyfer Grwpiau Eraill .....	63
7.2.3 Hunanladdiad.....	67
7.2.4 Disgwyliad Oes .....	68
7.2.5 Diffyg Maeth .....	72
7.2.6 Marwolaethau Babanod .....	73
7.2.7 Pwysau Geni Isel .....	74
7.3 Iechyd Meddwl.....	75
7.3.1 Poblogaeth yn adrodd Iechyd Meddwl a Llesiant Gwael.....	75
7.3.2 Mynediad at, ac Ansawdd, Gwasanaethau Iechyd Meddwl.....	76
7.3.3 Mynediad at Therapiau Seicolegol.....	77

7.3.4 Darpariaeth Iechyd Meddwl ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal .....	77
7.3.5 Hunanladdiadau Defnyddwyr Gwasanaeth Iechyd Meddwl .....	77
7.3.6 Defnyddio Ataliad ar gyfer Defnyddwyr Gwasanaeth Iechyd Meddwl.....	77
7.3.7 Defnydd o'r Ddeddf Iechyd Meddwl a Thriniaeth Gymunedol dan Oruchwyliaeth .....	77
8. Cyfiawnder a Diogelwch Personol .....	78
8.1 Cyfiawnder Troseddol a Sifil: Hyder y Cyhoedd a Mynediad at Gyfiawnder .....	78
8.1.1 Hyder y Cyhoedd yn y System Gyfiawnder .....	78
8.1.2 Mynediad i Lysoedd a Thriwiwnlysoedd.....	78
8.1.3 Darparu Cymorth Cyfreithiol.....	78
8.2 Trais a Cham-drin: Troseddau Casineb, Lladdiadau, a Cham-drin Rhywiol a Domestig .....	78
8.2.1 Troseddau Casineb ac Aflonyddu ar Sail Rhagfarn .....	78
8.2.2 Lladdiadau .....	80
8.2.3 Trais a Cham-drin Rhywiol .....	80
8.2.4 Trais a Cham-drin Domestig.....	81
8.2.5 Troseddau yn erbyn Plant .....	82
8.2.6 Stelcian ac Aflonyddu.....	82
8.2.7 Diogeledd a Diogelwch Personol .....	82
8.3 Amodau cadw .....	83
8.3.1 Poblogaeth sy'n cael eu cadw yn y ddalfa .....	83
8.3.2 Gorlenwi ac Amodau cadw .....	85
8.3.3 Marwolaethau Annaturiol.....	86
8.3.4 Diogelwch y rhai sy'n cael eu cadw.....	86
8.3.5 Defnyddio Grym ac Atal .....	87
9. Cyfranogiad .....	89
9.1 Pleidleisio a Chyfranogiad a Chynrychiolaeth Ddinesig .....	89
9.1.1 Pleidleisio .....	89
9.1.2 Cyfranogiad Gwleidyddol a Rhyddid Mynegiant, Ymgynnull ac Ymgysylltu; Undebau Llafur, Deddfwriaeth ac Aelodaeth .....	89
9.1.3 Cyfranogiad Dinesig, gan gynnwys Penodiadau Cyhoeddus a Gwirfoddoli; Y gallu i Ddylanwadu ar Benderfyniadau yn yr Ardal Leol .....	89
9.2 Mynediad at Wasanaethau.....	91
9.2.0 Mynediad at Wasanaethau.....	91
9.2.1 Mynediad i Drafnidiaeth .....	92
9.2.2 Mynediad at Wasanaethau Digidol.....	95
9.2.3 Rhwystrau i Fynediad Ariannol a Bregusrwydd i Dwyll.....	96
9.2.4 Mynediad at Ddiwylliant, Hamdden a Chwaraeon .....	96

9.3 Preifatrwydd a Gwylidwriaeth .....	103
9.3.1 Defnyddio'r Rhyngwryd ac Ymwybyddiaeth o Osodiadau Preifatrwydd.....	103
9.3.2 Trin Data Personol.....	103
9.4 Cydlyniant Cymdeithasol a Chymunedol .....	103
9.4.1 Ymddiriedaeth ac Ymdeimlad o Berthyn yn y Gymdogaeth Leol .....	103
9.4.2 Cydlyniant Cymdeithasol a Chymunedol, Meithrin Perthnasoedd i Wrthsefyll Radicaleiddio ac Eithafiaeth .....	106
9.4.3 Rhyngweithio Cymunedol a Defnydd Mannau Cyffredin; Mynediad at, ac Eithrio oddi wrth, Ymgysylltiad â'r Gymuned Leol.....	106
10. Casgliad .....	111
Atodiad 0 – Rhestr o Dablau a Ffigurau .....	114
Rhestr o Dablau.....	114
Rhestr o Ffigurau.....	116
Atodiad 1 – Ffynonellau Data a Chysylltiadau .....	121
Atodiad 2 – Bylchau Data.....	129

## Cydraddoldeb yng Ngogledd Cymru: Adroddiad Data a Thystiolaeth

### 1. Pwrpas yr Adroddiad

Cafodd yr adroddiad hwn ei gomisiynu gan Rwydwaith Swyddogion Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru fel diweddariad i'r adroddiad blaenorol a gwblhawyd yn 2019. Nod yr adroddiad hwn, fel gyda'r adroddiad blaenorol, yw cael dealltwriaeth ddyfnach o ddata cydraddoldeb ar lefel leol yng Ngogledd Cymru, yn enwedig y rhai a drafodwyd yn yr adroddiad 'A yw Cymru'n Decach (2018)' a gwblhawyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn bwriadu cymharu'r data diweddaraf sydd ar gael â'r data gynhwyswyd yn yr adroddiad blaenorol i adolygu cynnydd a chynnwys unrhyw ffynonellau data newydd fel sy'n berthnasol.

Yn yr un modd â'r adroddiad blaenorol a wnaed yn 2019, bwriedir i'r adroddiad hwn ategu'r data a'r canfyddiadau a gynhwysir yn 'A yw Cymru'n Decach (2018)' gan ganolbwyntio ar ranbarth Gogledd Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys data sy'n edrych ar Ogledd Cymru a'r chwe ardal awdurdod lleol (Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn a Wrecsam). At hynny, mae'r adroddiad hwn yn cynnwys data wedi'i ddiweddarau fel sydd ar gael adeg ei ysgrifennu ym mis Ebrill 2023.

Mae'r holl dablau a ffigurau wedi'u rhestru yn Atodiad 0.

Mae rhestr gynhwysfawr o ffynonellau data a ddefnyddir yn yr adroddiad wedi'i chynnwys yn y rhestr gyfeirio yn Atodiad 1. Gellid defnyddio'r hyperddolenni a gynhwysir yma i ddiweddarau ac adolygu cynnydd o ran cyflawni'r amcanion dros amser. Nodyn – yn anffodus nid yw pob hyperddolen ar gael yn Gymraeg.

Nodir unrhyw fylchau a adnabuwyd yn y data a'r wybodaeth sydd ar gael ar lefel leol yn Atodiad 2. Nodwyd meysydd i'w gwella yma a thrwy gydol y ddogfen.

Cefnogwyd yr adroddiad hwn gan BGC Gwynedd a Môn, BGC Conwy a Sir Ddinbych a BGC Sir y Fflint a Wrecsam, drwy gyllid cymorth rhanbarthol Llywodraeth Cymru ar gyfer byrddau gwasanaethau cyhoeddus.

## 2. Cyflwyniad / Dull a Ddefnyddiwyd

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio'r un penawdau a strwythur ag adroddiad 'A yw Cymru'n Decach (2018)' yn ogystal â'r adroddiad 'Cydraddoldeb yng Ngogledd Cymru' blaenorol a gwblhawyd yn 2019, er mwyn pwysleisio'r bwriad i'r adroddiad hwn gael ei ystyried fel atodiad i'r adroddiad Cymru gyfan ac i hwyluso cymhariaeth â'r data a gasglwyd yn 2019 ar gyfer Gogledd Cymru.

Y man cychwyn wrth gasglu'r data ar gyfer yr adroddiad diwygiedig hwn oedd adroddiad 'Cydraddoldeb yng Ngogledd Cymru' 2019, lle adolygwyd y ffynonellau data a nodwyd er mwyn gweld a oedd data mwy diweddar ar gael ar lefel leol. Lle nad oedd data wedi'i ddiweddararu ar gael, mae ffynonellau data amgen wedi cael eu hadnabod lle bo hynny'n bosibl. Er bod hyn yn effeithio ar y gallu i gymharu data â'r adroddiad blaenorol ar sail tebyg-at-ei-debyg, mae'n caniatáu cynnwys darlun mwy cyfredol o'r pwnc. At hynny, cafodd rhywfaint o ddata ychwanegol ei adnabod a'i gynnwys yn yr adroddiad hwn nad oedd ar gael yn 2019, megis data Cyfrifiad 2021 ynghylch hunaniaeth rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol.

Mae data wedi'i gynnwys ar gyfer ffynonellau gan gynnwys Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, StatsCymru a Nomis. Darparwyd dolenni data drwy gydol yr adroddiad, gyda chrynodeb o'r cyfeiriadau a ddefnyddiwyd wedi'i gynnwys yn Atodiad 1.

Mae'r adroddiad hwn, felly, yn gynhwysfawr o ran y wybodaeth sydd ar gael ar lefel leol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, rhaid nodi bod nifer o fylchau data yn y maes hwn ac amlygir y rhain yn Atodiad 2. Un mater penodol yw bod yr adroddiad yn cynnwys mwy o ddadansoddiad o rai nodweddion gwarchoddedig (fel rhywedd ac oedran) nag eraill. Mae hyn yn adlewyrchu'r data sydd ar gael ar gyfer pob pwnc ac ni ddylid ei gymryd na'i ddehongli i awgrymu nad yw anghydraddoldebau ar gyfer y grwpiau gwarchoddedig eraill yn bodoli neu eu bod rywsut yn llai pwysig. Mater arall yw nad yw data croesdoriadol ar gael ar lefel leol gan amlaf, ac mae hyn hefyd yn broblem ar lefel Cymru gyfan fel y trafodwyd yn [Adroddiad Cyflwr y Genedl Chwarae Teg 2023](#). Yn olaf, mae rhywfaint o'r data yn ddata cyn y pandemig ac felly ni fyddant yn dangos effaith Covid.


Y gobaith yw y bydd tynnu sylw at y bylchau gwybodaeth a data sy'n bodoli ar lefel leol yn yr adroddiad hwn yn chwarae rhan fach wrth fynd i'r afael â nhw ar gyfer y dyfodol.

Nodyn ynglŷn ag iaith a therminoleg; mae'r termau ac acronymau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn yn gyson â'r rhai ddefnyddir yn y setiau data a'r adroddiadau drafodir ac a gyfeirir atynt, a gallent amrywio fesul corff a sefydliad.




### 3. Ystadegau Allweddol ar gyfer Gogledd Cymru


Mae'r ffigurau isod (Ffigur 1 – 10) gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) yn cynnwys yr holl ddata sydd ar gael ar hyn o bryd ar nodweddion gwarchoddedig ac eraill o Gyfrifiad 2021, gan ddangos y cyfrannau yn ôl ardal awdurdod lleol. Mae ffigurau 8, 9 a 10 yn setiau data newydd na chawsant eu cynnwys yn yr Adroddiad Cydraddoldeb Gogledd Cymru blaenorol.




Ffigur 1 - Canran poblogaeth fesul rhyw ar gyfer pob un o'r chwe ardal awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru (ONS, 2022).




Ffigur 2 – Canran poblogaeth yn ôl grŵp oedran ar gyfer pob un o'r chwe ardal awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru (ONS, 2022).




Ffigur 3 – Canran poblogaeth fesul grŵp ethnig ar gyfer y chwe ardal awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru (ONS, 2022).




Ffigur 4 – Canran poblogaeth fesul hunaniaeth genedlaethol ar gyfer y chwe ardal awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru (ONS, 2022).




Ffigur 5- Canran y boblogaeth fesul gwlad eneidgol ar gyfer y chwe ardal awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru (ONS, 2022).




Ffigur 6 - Canran poblogaeth fesul crefydd ar gyfer y chwe ardal awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru (ONS, 2022).




Ffigur 7 - Canran poblogaeth (16+) fesul statws partneriaeth gyfreithiol ar gyfer y chwe ardal awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru (ONS, 2022).



Ffigur 8 - Canran poblogaeth (16+) fesul cyfeiriadedd rhywiol ar gyfer y chwe ardal awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru (ONS, 2023).



Ffigur 9 - Canran poblogaeth (16+) fesul hunaniaeth rhywedd ar gyfer y chwe ardal awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru (ONS, 2023).



Ffigur 10 – Canran pobl anabl o dan y ddeddf cydraddoldeb ar gyfer y chwe ardal awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru (ONS, 2023).


## 4. Addysg

### 4.1 Cyrhaeddiad Addysg Plant a Phobl Ifanc

Mae'n bwysig nodi mai bwriad y data lefel awdurdod lleol yn yr adran hon o'r adroddiad yw llywio gwell dealltwriaeth o faterion cydraddoldeb a'u heffaith ar gyflawniad disgyblion ledled Gogledd Cymru, yn hytrach na mesur neu asesu perfformiad ysgolion / awdurdodau lleol. Ar ben hynny, mae'r data cyrhaeddiad a gynhwysir yn 4.1.1 a 4.1.2 o'r cyfnod cyn y pandemig ac felly ni fyddant yn adlewyrchu unrhyw newidiadau a welwyd o ganlyniad i Covid.


#### 4.1.1 Addysg Blynyddoedd Cynnar

Caiff cyrhaeddiad disgyblion mewn addysg blynyddoedd cynnar ei fesur drwy ganran y plant yn cyflawni'r canlyniad disgwylidig yn y Cyfnod Sylfaen. Yn anffodus, bu newidiadau i'r ffyrdd y cesglir y data yma ers yr adroddiad blaenorol ac o'r herwydd nid yw'r data hwn bellach ar gael ar lefel awdurdod lleol oddi ar 2018. Felly, dangosir data wedi'i ddiweddararu ar gyfer Cymru yn hytrach nag ardaloedd awdurdod lleol Gogledd Cymru yn y ffigurau isod (Ffigur 11 – 13), gan gynnwys dadansoddiad fesul rhyw, hawl Prydau Ysgol am Ddim (PYD) a chefnidir ethnig. Dylid nodi bod y tri ffigur yn cynnwys data o'r cyfnod cyn y pandemig.



Ffigur 11 - Canran yn cyflawni'r canlyniad disgwylidig yn y Cyfnod Sylfaen yng Nghymru yn 2017, 2018 a 2019 wedi'i ddadansoddi fesul rhywedd ([Llywodraeth Cymru, 2019](#)).


Mae ffigur 11 uchod yn dangos bod y ganran a gyflawnodd y canlyniad disgwylidig yn y Cyfnod Sylfaen ledled Cymru wedi gostwng yn gyson rhwng 2017 a 2019, o 87.3% yn 2017 i 80.0% yn 2019. Gwelwyd y gostyngiad hwn hefyd ymhlith bechgyn a merched fel ei gilydd wedi rhannu'r data yn ôl rhywedd. Ym mhob blwyddyn rhwng 2017 a 2019 roedd canran y merched a gyflawnodd y canlyniad disgwylidig yn y cyfnod sylfaen yn uwch na bechgyn.



Ffigur 12 - Canran yn cyflawni'r canlyniad disgwylidig yn y Cyfnod Sylfaen yng Nghymru yn 2019 wedi'i ddadansoddi fesul hawl Prydau Ysgol am Ddim (PYD) ([Llywodraeth Cymru, 2019](#)).

Yn 2019 roedd canran y disgyblion a gyflawnodd y canlyniad disgwylidig yn y Cyfnod Sylfaen yn is ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim (FSM) o'i gymharu â'r rhai nad ydynt yn gymwys (63.8% ac 84.2% yn y drefn honno). Roedd hyn hefyd yn wir wrth ddadansoddi'r data ymhellach fesul rhywedd.

Mae data ar gael yn dadansoddi'r dangosydd hwn yn ôl cefndir ethnig, fel y'i cynhwysir yn y ffigur isod (Ffigur 13).




Ffigur 13 Canran yn cyflawni'r canlyniad disgwylidig yn y Cyfnod Sylfaen yng Nghymru yn 2017-2019 wedi'i ddadansoddi fesul cefndir ethnig ([Llywodraeth Cymru, 2020](#)).

Yn 2017 i 2019 (agregiadau 3 blynedd) wrth ddadansoddi data yn ôl cefndir ethnig, roedd canran y disgyblion a gyflawnodd y canlyniad disgwylidig yn y Cyfnod Sylfaen yng Nghymru yn amrywio o 74.2% (Unrhyw gefndir ethnig arall) i 88.8% (Tsieineaidd neu Tsieineaidd Prydeinig).

#### 4.1.2 Cyrhaeddiad Oedran Gadael Ysgol

Caiff cyrhaeddiad ei fesur drwy gyflawni'r 'Trothwy Lefel 2 Cynhwysol', sy'n gofyn am gyfwerth â phum TGAU gradd A\*-C gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg. Mae'r data diweddaraf sydd ar gael ar gyfer Gogledd Cymru a'r ardaloedd awdurdod lleol yn dyddio o 2018/19 ac felly mae cyn y pandemig, ac fe'i dangosir yn y ffigurau isod (Ffigur 14 a 15).




Ffigur 14 - Canran yn cyflawni Lefel 2 Cynhwysol ym Mlwyddyn 11 yn 2018/19 wedi'i ddadansoddi yn ôl rhywedd ([Llywodraeth Cymru, 2019](#)).

Mae data o 2018/19 yn dangos bod 52.2% o ddisgyblion yn cyflawni Lefel 2 Cynhwysol ym Mlwyddyn 11; mae hyn fwy neu lai yr un fath â'r data 2017/18 a gynhwyswyd yn yr Adroddiad Cydraddoldeb Gogledd Cymru blaenorol (52.0%).

Wrth ddadansoddi yn ôl rhywedd, mae'r data hwn yn dangos bod canran uwch o ferched na bechgyn wedi cyflawni Lefel 2 Cynhwysol yn 2018/19 ym mhob ardal awdurdod lleol. Roedd hyn hefyd yn wir yn y data 2017/18 a gynhwyswyd yn yr adroddiad blaenorol.





Ffigur 15 – Canran yn cyflawni Lefel 2 Cynhwysol ym Mlwyddyn 11 yn 2018/19 wedi'i rannu fesul hawl i dderbyn Prydau Ysgol am Ddim (PYD) ([Llywodraeth Cymru, 2019](#)).

Wrth ddadansoddi'r canlyniadau yn ôl cymhwysedd ar gyfer PYD, yn 2018/19 cyflawnodd canran uwch o ddisgyblion nad oeddent yn gymwys ar gyfer PYD Lefel 2 Cynhwysol na'r rhai sydd yn gymwys i gael PYD ar draws Gogledd Cymru (58.5% o'i gymharu â 27.9%). Mae hwn yn fwch tebyg i'r hyn a nodwyd yn yr adroddiad blaenorol. Roedd hyn hefyd yn wir ym mhob ardal awdurdod lleol, fel y nodwyd yn y data 2017/18 a gyhwysoyd yn yr adroddiad cydraddoldeb blaenorol.

#### 4.1.3 Effaith Rhagfarn ar sail Rhyw a Stereoteipio ar Ganlyniadau Addysgol

Fel yn yr adroddiad blaenorol, yn methu canfod data lleol perthnasol i ategu'r drafodaeth yn 'A yw Cymru'n Decach (2018)?'.

#### 4.1.4 Effaith Tlodi ac Allgau Cymdeithasol ar Gyrhaeddiad Addysgol

Fel yn yr adroddiad blaenorol, yn methu canfod data lleol perthnasol i ategu'r drafodaeth yn 'A yw Cymru'n Decach (2018)?'.

## 4.2 Gwaharddiadau Ysgol, Bwlio a NEET

### 4.2.1 Gwaharddiadau o'r Ysgol

Cafodd data awdurdodau lleol o 2015/16 ei gynnwys yn yr Adroddiad Cydraddoldeb Gogledd Cymru blaenorol, ond ni ellid canfod data wedi'i ddiweddarau.

### 4.2.2 Bwlio mewn Ysgolion

Mae data ar sail arolwg gan y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Mewn Ysgolion ar gyfer 2019/20 yn awgrymu bod 16% o ddisgyblion ysgolion uwchradd (blwyddyn 7 i 11) yng Ngogledd Cymru wedi bwlio

person arall yn yr ysgol yn ystod y ddeufis diwethaf; 15% oedd y ffigwr ledled Cymru ([Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Mewn Ysgolion, 2021](#)). Roedd y ganran ar gyfer 2017/18 a gynhwyswyd yn adroddiad cydraddoldeb blaenorol Gogledd Cymru yn 17% ar gyfer Gogledd Cymru a Chymru.


Wrth ddadansoddi'r canlyniad hwn yn ôl rhywedd, roedd 19% o ddisgyblion gwrywaidd yng Ngogledd Cymru wedi bwlio person arall yn yr ysgol, o'i gymharu â 12% o ddisgyblion benywaidd. Roedd 32% o'r disgyblion a nododd 'nid yw'r naill air na'r llall yn fy nisgrifio' wedi bwlio person arall, ond dylid cymryd gofal wrth ddehongli'r ganran hon oherwydd y niferoedd bach yn y grŵp yma.

Canfu'r un ymchwil fod 35% o ddisgyblion ysgolion uwchradd (blwyddyn 7 i 11) yng Ngogledd Cymru wedi adrodd rhywfaint o brofiad o gael eu bwlio yn yr ysgol yn ystod y ddeufis diwethaf, o'i gymharu â 33% ledled Cymru gyfan. Y ganran ar gyfer 2017/18 a gynhwyswyd yn yr adroddiad cydraddoldeb Gogledd Cymru blaenorol oedd 37% ar gyfer Gogledd Cymru a 36% ar gyfer Cymru.

Wrth ddadansoddi'r canlyniad hwn yn ôl rhywedd, dywedodd 33% o ddisgyblion gwrywaidd yng Ngogledd Cymru eu bod wedi'u bwlio yn yr ysgol, o'i gymharu â 37% o ddisgyblion benywaidd. Dywedodd 59% o'r disgyblion a nododd 'nid yw'r naill air na'r llall yn fy nisgrifio' eu bod wedi'u bwlio, ond dylid cymryd gofal wrth ddehongli'r ganran hon oherwydd y niferoedd bach yn y grŵp yma.

#### 4.2.3 NEET (heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant)

Roedd adroddiad cydraddoldeb blaenorol Gogledd Cymru yn cynnwys data NEET ar lefel awdurdod lleol, ond nid yw hyn ar gael bellach. Mae'r ffigwr isod (Ffigur 16) felly yn cynnwys data ar gyfer Gogledd Cymru a Chymru gyfan. Ar ben hynny, fel yn yr adroddiad blaenorol, nid yw dadansoddiad fesul nodwedd warchoddedig ychwaith ar gael ar lefel Gogledd Cymru.




Ffigur 16 [162023](#)).

Mae'r data yma'n dangos bod canran y bobl 16-24 oed yng Ngogledd Cymru a oedd yn NEET yn y flwyddyn yn diweddau 2020 Ch.3 hyd at y flwyddyn yn diweddau 2022 Ch.3 yn 12.8%, dyma hefyd y ganran ar gyfer Cymru.

### 4.3 Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes

#### 4.3.1 Addysg Uwch, gan gynnwys Dewis Pwnc, Cyrhaeddiad a Chymwysterau Lefel-gradd

Mae'r ffigur isod (Ffigur 17) yn cynnwys data Cyfrifiad 2021 sy'n dangos canran y boblogaeth sydd â chymwysterau lefel gradd neu uwch yn ardaloedd awdurdod lleol Gogledd Cymru.




Ffigur 17 Canran y boblogaeth 25-64 oed sydd â chymwysterau lefel gradd neu uwch yn chwe ardal awdurdod lleol Gogledd Cymru - data Cyfrifiad 2021 ([ONS, 2021](#)).

Yng Ngogledd Cymru, dangosodd Cyfrifiad 2021 fod gan 36.7% o'r boblogaeth 25-64 oed gymwysterau lefel gradd. Mae hyn wedi cynyddu o 29.3% yn y Cyfrifiad blaenorol (2011).


Yr ardal awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru â'r ganran uchaf o'r boblogaeth 25-64 oed â chymhwyster lefel gradd neu uwch yng Nghyfrifiad 2021 oedd Gwynedd (41.1%) a'r isaf oedd Wrecsam (34.2%) a Sir y Fflint (34.8%).

Mae'r ffigurau isod (Ffigur 18 – 20) yn dadansoddi canran y boblogaeth (25-64 oed) â chymwysterau lefel gradd yng Nghyfrifiad 2021 fesul rhyw, grŵp ethnig, a chrefydd.




Ffigur 18 Canran y boblogaeth 25-64 oed â chymwysterau lefel gradd neu uwch yn chwe ardal awdurdod lleol Gogledd Cymru wedi'i ddadansoddi fesul rhyw - data Cyfrifiad 2021 (ONS, 2021).

Wrth ddadansoddi fesul rhyw, mae gan ganran uwch o ferched na dynion gymhwyster lefel gradd yng Ngogledd Cymru (40.5% o'i gymharu â 32.7%). Mae dadansoddiad ar lefel ardal awdurdod lleol yn dangos bod gan gyfran uwch o fenywod gymwysterau lefel gradd na dynion ym mhob un o'r ardaloedd awdurdod lleol. Gwelwyd hyn hefyd adeg Cyfrifiad 2011.



Ffigur 19 Canran y boblogaeth 25-64 oed â chymwysterau lefel gradd neu uwch yn chwe ardal awdurdod lleol Gogledd Cymru wedi'i ddadansoddi fesul grŵp ethnig - data Cyfrifiad 2021 (ONS, 2021).

Wrth ddadansoddi Cyfrifiad 2021 fesul grŵp ethnig, mae'r gyfran uchaf o bobl yng Ngogledd Cymru sydd â chymwysterau lefel gradd yn y grwpiau Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribiaidd neu Affricanaidd (52.9%) a'r gyfran isaf yn y grŵp Gwyn (30.5%). Gwelir rhywfaint o amrywiad yn y gwahanol ardaloedd awdurdod lleol.




Ffigur 20 Canran y boblogaeth 25-64 oed sydd â chymwysterau lefel gradd neu uwch yn chwe ardal awdurdod lleol Gogledd Cymru wedi'i ddadansoddi fesul crefydd - data Cyfrifiad 2021 (ONS, 2021).

Wrth ddadansoddi Cyfrifiad 2021 yn ôl crefydd, yng Ngogledd Cymru, mae'r gyfran uchaf o bobl â chymwysterau lefel gradd yn Hindŵaidd (73.7%) a'r gyfran isaf ymhlith pobl na wnaethant ateb y cwestiwn crefydd yn y Cyfrifiad (33.1%). Gwelir rhywfaint o amrywiad yn y gwahanol ardaloedd awdurdod lleol.

#### 4.3.2 Dysgu Gydol Oes

Mae'r ffigur isod yn nodi canran y boblogaeth 16-64 oed a dderbyniodd hyfforddiant yn ymwneud â'u swydd (Ffigur 21).



2116-64 oed a dderbyniodd hyfforddiant yn ymwneud â'u swydd yn y 13 wythnos diwethaf wedi'i ddadansoddi fesul rhywedd (Ebrill 2021-Mawrth 2022) ([ONS, 2022](#)).


Mae'r data hwn yn dangos bod cyfran uwch o ferched wedi derbyn hyfforddiant yn gysylltiedig â'u swydd mewn pump o ardaloedd awdurdod lleol Gogledd Cymru, gyda chyfran y dynion yn uwch yn Wrecsam. Yn yr adroddiad Cydraddoldeb Gogledd Cymru blaenorol, dangosodd data 2018-19 gyfran uwch o ferched ym mhob un o'r chwe ardal awdurdod lleol.

## 5. Gwaith

### 5.1 Cyflogaeth

#### 5.1.1 Cyflogaeth

Mae'r ffigur isod (Ffigur 22) yn dangos y gyfradd gyflogaeth cyfansawdd ar gyfer holl oedolion 16-64 oed yn ardaloedd awdurdodau lleol Gogledd Cymru yn ogystal â dadansoddiad fesul rhywedd.




Ffigur 22 – 22 Cyfradd gyflogaeth gyfansawdd (holl oedolion 16-64 oed) a chyfradd fesul rhywedd Ebrill 2021 – Mawrth 2022 yng Ngogledd Cymru ac ardaloedd awdurdod lleol Gogledd Cymru ([ONS, 2022](#)).

Y gyfradd gyflogaeth gyfansawdd ar gyfer holl oedolion 16-64 oed yng Ngogledd Cymru yn 2021/22 oedd 74%, ac yn yr ardaloedd awdurdod lleol roedd hyn yn amrywio o 69% yn Sir Ddinbych i 81% yn Sir y Fflint. Roedd data 2018/19 yn dangos mai 75% oedd y gyfradd cyflogaeth gyfansawdd ar gyfer y grŵp oedran hwn yng Ngogledd Cymru, ond roedd llai o amrywiaeth rhwng yr ardaloedd lleol o 73% yng Ngwynedd i 77% yn Sir y Fflint, Ynys Môn a Wrecsam.

Wrth ddadansoddi yn ôl rhywedd, yn 2021/22 roedd y gyfradd gyflogaeth ar gyfer dynion 16-64 oed yn uwch na merched (76% o'i gymharu â 73%). Roedd hyn hefyd yn wir yn 2018/19 er bod y bwlch yn fwy (78% ar gyfer dynion, 73% ar gyfer merched). Yn 2021/22 roedd cyfradd cyflogaeth dynion yn uwch na merched ym mhob ardal leol heblaw am Wunedd lle'r oedd y gyfradd ar gyfer merched yn uwch (75% merched, 72% dynion). Roedd y bwlch mwyaf yn Sir Ddinbych lle'r oedd y gyfradd gyflogaeth ar gyfer dynion yn 74% a merched yn 64%. Yn 2018/19 roedd y gyfradd ar gyfer dynion yn uwch na merched ym mhob ardal awdurdod lleol, ac roedd y bwlch mwyaf yng Nghonwy (cyfradd o 80% ar gyfer dynion, 68% ar gyfer merched).

Dangosir dadansoddiad fesul grŵp ethnig yn y ffigur isod (Ffigur 23).




Ffigur 23 Cyfradd cyflogaeth (oedolion 16-64 oed) fesul grŵp ethnig rhwng Ebrill 2021 – Mawrth 2022 yng Ngogledd Cymru ac ardaloedd awdurdod lleol Gogledd Cymru ([ONS, 2022](#)).

Yng Ngogledd Cymru, roedd cyfradd gyflogaeth 2021/22 yn is ar gyfer pobl o leiafrifoedd ethnig na phobl wyn (68% o'i gymharu â 74%). Nid oedd hyn yn wir ym mhob ardal awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru. Yn Sir Ddinbych a Sir y Fflint mae'r gyfradd cyflogaeth yn uwch ar gyfer pobl o leiafrifoedd ethnig na phobl wyn, tra gwelwyd y gwrthwyneb yng Nghonwy, Gwynedd, Ynys Môn a Wrecsam. Nid oedd dadansoddiad pellach fesul grŵp ethnig (o fewn y boblogaeth lleiafrifoedd ethnig) yn bosibl oherwydd meintiau sampl bach.

Dangosir dadansoddiad fesul grŵp oedran yn y ffigur isod (Ffigur 24) sy'n dangos cyfradd y bobl ddi-waith ym mhob grŵp oedran o'i gymharu â maint y grŵp oedran perthnasol.






Ffigur 24 Cyfradd cyflogaeth (oedolion 16-64 oed) fesul grŵp oedran yn Ebrill 2021 – Mawrth 2022 yng Ngogledd Cymru ac ardaloedd awdurdod lleol Gogledd Cymru ([ONS, 2022](#)).

Yng Ngogledd Cymru, roedd cyfradd gyflogaeth 2021/22 ar ei uchaf yn y grŵp oedran 25-49 (86%), a'r ail uchaf yn y grŵp 50-64 oed (68%) a'r isaf yn y grŵp oedran 16-24 (53%). Gwelir dosbarthiad tebyg ym mhob ardal awdurdod lleol. Roedd hyn hefyd yn wir yn y data 2018/19 a gynhwyswyd yn adroddiad cydraddoldeb blaenorol Gogledd Cymru.

Dangosir dadansoddiad wrth rannu rhwng poblogaethau anabl a heb anabledd yn y ffigur isod (Ffigur 25).




Ffigur 25 Cyfradd cyflogaeth (oedolion 16-64 oed) pobl anabl a phobl sydd ddim yn anabl Ebrill 2021 – Mawrth 2022 yng Ngogledd Cymru ac ardaloedd awdurdod lleol Gogledd Cymru (ONS, 2022).

Yng Ngogledd Cymru, roedd cyfradd gyflogaeth 2021/22 yn llawer uwch i bobl nad oeddent yn anabl (82%) na phobl anabl (47%). Gwelwyd dosbarthiad tebyg ym mhob ardal awdurdod lleol, gyda'r bwch lleiaf yn Sir y Fflint (85% a 66%) a'r mwyaf yn Wrecsam (83% a 39%).

### 5.1.2 Diweithdra

Yn yr un modd â'r uchod, mae data diweithdra ar gael o Arolwg Blynyddol Poblogaeth yr ONS fesul rhywedd, grŵp oedran, ac anabledd ond nid fesul grŵp ethnig na chrefydd.

Mae'r ffigur isod (Ffigur 26) yn dangos y gyfradd diweithdra gyfansawdd ar gyfer holl oedolion 16-64 oed yn ardaloedd awdurdod lleol Gogledd Cymru yn ogytal â dadansoddiad yn ôl rhywedd.




Ffigur 26 – 26 Cyfradd diweithdra gyfansawdd (holl oedolion 16-64 oed) a chyfradd fesul rhywedd Ebrill 2021 – Mawrth 2022 yng Ngogledd Cymru ac ardaloedd awdurdod lleol Gogledd Cymru ([ONS, 2022](#)). Mae rhai bylchau yn y data sydd ar gael.

Yng Ngogledd Cymru roedd cyfanswm y gyfradd ddiweithdra ymhlith y rhai 16-64 oed yn 3.2%. Roedd hyn yn amrywio rhwng yr ardaloedd awdurdod lleol gyda'r isaf yn Sir y Fflint (1.2%) a'r uchaf yn Ynys Môn a Wrecsam (4.7% ill dau). Nid yw'r data hwn yn gallu cael ei gymharu'n uniongyrchol â'r data gyhwyswyd yn yr adroddiad cydraddoldeb blaenorol.

Wrth ddadansoddi yn ôl rhywedd, roedd y gyfradd diweithdra ychydig yn uwch ymhlith dynion na merched yng Ngogledd Cymru (3.7% o'i gymharu â 3.6%). Yn yr ardaloedd lleol, roedd cyfradd diweithdra yn uwch ymhlith dynion na merched yng Nghonwy, Sir Ddinbych a Gwynedd, ac yn uwch ymhlith merched o'i gymharu â dynion yn Ynys Môn a Wrecsam. Nid oedd data ar gael ar gyfer merched yn Sir y Fflint.


Dangosir dadansoddiad yn ôl grŵp oedran yn y ffigur isod (Ffigur 27).



Ffigur 27 Cyfradd diweithdra gyfansawdd (holl oedolion 16-64 oed) fesul grŵp oedran Ebrill 2021 – Mawrth 2022 yng Ngogledd Cymru ac ardaloedd awdurdod lleol Gogledd Cymru ([ONS, 2022](#)). Mae rhai bylchau yn y data sydd ar gael.

Mae bylchau yn y data sydd ar gael ar gyfer cyfradd diweithdra fesul grŵp oedran, ac nid oes unrhyw ardaloedd awdurdod lleol lle mae'r data llawn ar gael yn ôl grŵp oedran. Felly mae'n anodd dod i gasgliadau pendant o'r data hwn ar gyfer 2021/22, ond mae'n ymddangos ar gyfer y pum ardal lleol lle mae data ar gael ar gyfer y grŵp oedran 16-24 mai dyma'r grŵp sydd â'r gyfradd ddiweithdra uchaf.

Dangosir cyfraddau diweithdra ar gyfer pobl anabl a phobl nad ydynt yn anabl yn y ffigur isod (Ffigur 28).



Ffigur 28 Cyfradd ddiweithdra (oedolion 16-64 oed) fesul anabledd Ebrill 2021 – Mawrth 2022 yn ardaloedd awdurdod lleol Gogledd Cymru (ONS, 2022). Mae rhai bylchau yn y data sydd ar gael.

Unwaith eto, mae bylchau yn y data cyfraddau diweithdra sydd ar gael. Mae gan dair ardal awdurdod lleol setiau data llawn (Conwy, Gwynedd a Wrecsam) ac yn y rhain mae cyfraddau diweithdra ardaloedd lleol yn sylweddol uwch ar gyfer pobl anabl.

Nid yw data diweithdra ar gael ar lefel lleol yn ôl grŵp ethnig, ond mae rhywfaint o ddata cyfyngedig iawn ar gael ar sail Cymru. Yn y boblogaeth 16 oed a hŷn (nid 16-64 fel y nodwyd uchod) roedd y gyfradd ddiweithdra ar gyfer pobl o leiafrifoedd ethnig yng Nghymru yn 9.4% (ONS, 2022). Yn anffodus, ni cheir dadansoddiad pellach fesul grŵp ethnig (o fewn y boblogaeth lleiafrifoedd ethnig).

### 5.1.3 Cyflogaeth Ansicr

Nid oedd data lleol perthnasol ar gael yn yr adroddiad blaenorol, ac mae hynny'n wir y tro hwn hefyd. Fodd bynnag, mae dadansoddiad gan y TUC yn nodi bod gwaith ansicr 'yn arbennig o gyffredin yng Nghymru' gyda 13.1% mewn gwaith ansicr fel y nodwyd yn eu dadansoddiad o'r Arolwg o'r Llafur (2019) a'r Arolwg Adnoddau Teulu (2018/19) (TUC, 2020).

### 5.1.4 Triniaeth Annheg, Bwlio ac Aflonyddu yn y Gweithle

Fel yn yr adroddiad blaenorol, yn methu canfod data lleol perthnasol i ategu'r drafodaeth yn 'A yw Cymru'n Decach (2018)?'.

## 5.2 Enillion

### 5.2.1 Bylchau Cyflog mewn Canolrif Enillion fesul Awr

Dangosir y bwch cyflog rhwng y rhywiau ar gyfer y chwe ardal awdurdod lleol yn y tabl isod (Tabl 1).

Tabl 1 – Y bwlch cyflog rhwng y rhywiau (% benywaidd yn is na gwrywaidd) ar gyfer chwe ardal awdurdod lleol Gogledd Cymru yn 2022 ([ONS, 2022](#))

Ardal awdurdod	Bwlch cyflog rhwng y rhywiau (% benywaidd yn is na gwrywaidd) – yn seiliedig ar enillion canolrif yr awr ac eithrio goramser
Conwy	10.8%
Sir Ddinbych	12.1%
Sir y Fflint	13.8%
Gwynedd	8.6%
Ynys Môn	5.5%
Wrecsam	12.7%


Mae dynion yn ennill mwy na merched ym mhob un o chwe ardal awdurdod lleol Gogledd Cymru. Yn y data o 2018 a gynhwyswyd yn yr adroddiad blaenorol roedd dynion yn ennill mwy na merched mewn pump o'r chwe ardal awdurdod lleol.

Mae'r bwlch cyflog mwyaf rhwng y rhywiau yn Sir y Fflint (13.8%) a'r lleiaf yn Ynys Môn (5.5%). Ers yr adroddiad blaenorol mae'r bwlch cyflog wedi cynyddu yn Sir y Fflint (5.2% i 13.8%), ac wedi gostwng yn Ynys Môn (17.3% i 5.5%), Gwynedd (10.7% i 8.6%), Sir Ddinbych (16.7% i 12.1%) a Wrecsam (16.4% i 12.7%). Yng Nghonwy enillodd merched fwy na dynion yn yr adroddiad blaenorol fodd bynnag mae hyn wedi newid yn y data diweddaraf gyda'r data diweddaraf yn dangos dynion yn ennill mwy na merched gyda bwlch o 10.8%.

Mae'n bwysig nodi bod:

- Y dadansoddiad hwn yn seiliedig ar breswylfan gweithwyr yn hytrach na'r gweithle.
- Y data'n cyfeirio at boblogaeth weithio'r ardal yn gyffredinol, yn hytrach na gweithlu'r awdurdodau lleol perthnasol.

Dangosir y tâl canolrif fesul awr ar draws yr holl weithwyr, ac wedi ei rannu yn ôl rhywedd, ar gyfer 2022 yn y ffigur isod (Ffigur 29).



Ffigur 29 – Tâl canolrifol fesul awr yn cynnwys goramser, holl gyflogeion ac wedi'i rannu fesul rhywedd, 2022 yn chwe ardal awdurdod lleol Gogledd Cymru a Chymru ar sail preswylfan ([ONS, 2022](#)).

Mae tâl dynion a merched wedi cynyddu i raddau yn holl ardaloedd awdurdod lleol Gogledd Cymru ers yr adroddiad blaenorol, er bod dynion yn ennill mwy na merched ym mhob un o'r chwe ardal leol.

Yn anffodus, nid oes data ar gael sy'n dangos y bwch cyflog fesul unrhyw nodweddion gwarchoddedig eraill yng Ngogledd Cymru.

Mae data gan yr [ONS sy'n asesu bylchau anabledd mewn cyflogau yn y DU](#) yn nodi mai 11.6% oedd bwch cyflog anabledd Cymru yn 2021, gyda gweithwyr anabl yn ennill llai na gweithwyr nad ydynt yn anabl. Hwn oedd y bwch canrannol lleiaf ymysg gwledydd y DU. Noder fod y data hwn wedi'i asesu fesul preswylfan nid gweithle.

### 5.2.2 Tâl Isel

Fel yn yr adroddiad blaenorol, yn methu canfod data lleol perthnasol i ategu'r drafodaeth yn 'A yw Cymru'n Decach (2018)?'.

### 5.2.3 Gwahaniaethau Rhywedd mewn Enillion fesul Galwedigaeth, Sector a Diwydiant

Gellir cynnal y dadansoddiad yn 5.2.1 hefyd ar swyddi llawn-amser a swyddi rhan-amser ar wahân.

Mae'r tablau isod (Tabl 2 a 3) yn dangos enillion canolrif yr awr fesul rhywedd a'r bwch cyflog rhwng y rhywiau ar gyfer gweithwyr llawn-amser a gweithwyr rhan-amser.

Tabl 2 – Enillion canolrifol yr awr ac eithrio goramser ar gyfer gweithwyr llawn amser a'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar gyfer chwe ardal awdurdod lleol Gogledd Cymru a Chymru (ONS, 2022).

Ardal awdurdod	Benyw	Gwryw	Bwlch cyflog rhwng y rhywiau (% merched yn is na dynion)
	£	£	
Conwy	£14.66	£16.48	11.0%
Sir Ddinbych	£13.34	£14.41	7.4%
Sir y Fflint	£14.48	£15.48	6.5%
Gwynedd	£13.37	£13.33	-0.3%
Ynys Môn	£16.41	£13.92	-17.9%
Wrecsam	£15.10	£15.61	3.3%
<i>Cymru</i>	<i>£14.70</i>	<i>£15.76</i>	<i>6.7%</i>

O ran gweithwyr llawn amser yn 2022, roedd dynion yn cael eu talu fwy na merched mewn pedair o chwe ardal awdurdod lleol Gogledd Cymru (Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam) gyda'r bwlch mwyaf yng Nghonwy (11.0%) a'r lleiaf yn Wrecsam (3.3%). Mae merched yn cael eu talu fwy na dynion mewn dwy ardal leol, gyda bwlch o 0.3% yng Ngwynedd ac 17.9% yn Ynys Môn.

Tabl 3 – Enillion canolrifol yr awr ac eithrio goramser ar gyfer gweithwyr rhan-amser a'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar gyfer chwe ardal awdurdod lleol Gogledd Cymru a Chymru (ONS, 2022).

Ardal awdurdod	Benyw	Gwryw	Bwlch cyflog rhwng y rhywiau (% merched yn is na dynion)
	£	£	
Conwy	£10.97	£9.81	-11.8%
Sir Ddinbych	£10.97	£10.23	-7.2%
Sir y Fflint	£10.68	ddim ar gael	Nid yw'r gydran gwrywaidd ar gael
Gwynedd	£11.19	ddim ar gael	Nid yw'r gydran gwrywaidd ar gael
Ynys Môn	£10.30	£9.94	-3.6%
Wrecsam	£10.90	£10.25	-6.3%
<i>Cymru</i>	<i>£11.19</i>	<i>£10.75</i>	<i>-4.1%</i>


Ar gyfer gweithwyr rhan-amser, yn 2022 roedd merched yn cael eu talu'n uwch na dynion ym mhob un o'r pedair ardal awdurdod leol yng Ngogledd Cymru lle'r oedd data ar gael (Conwy, Sir Ddinbych, Ynys Môn a Wrecsam). Doedd dim data ar gael ar gyfer dynion yng Ngwynedd a Sir y Fflint, ac felly doedd dim modd cyfrifo'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau.



## 5.3 Arwahanu Galwedigaethol


### 5.3.1 Arwahanu fertigol a llorweddol

Dangosir dadansoddiad o gyfran y gweithwyr sydd mewn swyddi sy'n debygol o gael eu talu'n uchel (swyddi rheolaethol a phroffesiynol) a'u talu'n isel (gofalu, hamdden a galwedigaethau gwasanaeth eraill, galwedigaethau gwerthu a gwasanaeth cwsmeriaid, galwedigaethau elfennol) fesul rhywedd yn y ffigurau isod (Ffigur 30 a 31).



Ffigur 30 - Cyfran y gweithwyr 16+ mewn galwedigaethau cyflog uchel, Ebrill 2021 - Mawrth 2022, cyfanswm ac yn ôl rhywedd yn ardaloedd awdurdod lleol Gogledd Cymru a Chymru (ONS, 2022).

Mae cyfran y dynion mewn galwedigaethau cyflog uchel ychydig yn uwch na merched mewn tri o ardaloedd awdurdod lleol Gogledd Cymru (Sir y Fflint, Ynys Môn a Wrecsam), tra bod cyfran y merched yn uwch na dynion mewn tair ardal leol (Conwy, Sir Ddinbych a Gwynedd). Mae hyn wedi newid ers adroddiad cydraddoldeb blaenorol Gogledd Cymru lle'r oedd cyfran y merched ychydig yn uwch na dynion mewn pump o'r ardaloedd lleol yn 2018-19, gyda Sir y Fflint yn eithriad i hyn.




Ffigur 31 Cyfran y gweithwyr 16+ mewn galwedigaethau cyflog isel, Ebrill 2021 - Mawrth 2022, cyfanswm a fesul rhywedd yn ardaloedd awdurdod lleol Gogledd Cymru a Chymru ([ONS, 2022](#)).

Mae cyfran y merched mewn galwedigaethau cyflog-isel yn uwch na chyfran y dynion yn holl ardaloedd awdurdod lleol Gogledd Cymru. Roedd hyn hefyd yn wir yn adroddiad cydraddoldeb blaenorol Gogledd Cymru. Mewn pedwar o'r ardaloedd lleol mae cyfran y merched o leiaf ddwywaith y gyfran o ddynion (Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn a Wrecsam).

Roedd rhywfaint o ddata hefyd ar gael yn dadansoddi'r data hwn fesul grŵp ethnig yn yr adroddiad cydraddoldeb blaenorol, yn anffodus nid yw'r data hwn bellach ar gael yn gywir. Mae dadansoddiad ar gael ar lefel Cymru gyfan, fodd bynnag. Mae data o Ebrill 2021-Mawrth 2022 yn nodi mai 30.5% yw cyfran y boblogaeth mewn galwedigaethau cyflog-uchel yng Nghymru, gyda 30.7% o weithwyr Gwyn a 28.6% o weithwyr Lleiafrif Ethnig mewn galwedigaethau cyflog-uchel ([ONS, 2022](#)). Mae'r un data'n nodi bod cyfran o 27.6% o weithwyr yng Nghymru mewn galwedigaethau cyflog-isel, gyda 27.5% o weithwyr Gwyn a 33.2% o weithwyr Lleiafrif Ethnig mewn galwedigaethau cyflog-isel.

### 5.3.2 Arwahanu o fewn Prentisiaethau

Dangosir canran y prentisiaethau fesul rhywedd yn y ffigur isod (Ffigur 32).



Ffigur 32 – Canran y prentisiaethau fesul rhywedd yn 2021/22 ar gyfer ardaloedd awdurdodau lleol Gogledd Cymru a Gogledd Cymru ([Llywodraeth Cymru, 2023](#)).

Roedd 53.0% o bobl ar raglenni prentisiaeth yng Ngogledd Cymru yn 2021/22 yn ferched, sydd wedi gostwng o 60.9% yn 2017/18. Yn 2021/22, roedd mwy o ferched ar raglenni prentisiaeth mewn pedair ardal awdurdod lleol (Conwy, Sir Ddinbych, Gwynedd ac Ynys Môn), tra yn 2017/18 roedd mwy o ferched ym mhob un o'r chwe ardal leol.

Yn adroddiad cydraddoldeb blaenorol Gogledd Cymru roedd data ar gael yn dangos nifer y prentisiaethau fesul sector wedi'i ddadansoddi yn ôl rhywedd, fodd bynnag, nid yw'r data hwn wedi'i ganfod ar gyfer yr adroddiad diweddaraf hwn gan nad ydynt wedi'u rhyddhau.

Dangosir canran y prentisiaethau yn ôl ethnigrwydd yn y tabl isod (Tabl 4).


Tabl 4 – Canran y prentisiaethau fesul grŵp ethnig yn 2021/22 ar gyfer ardaloedd awdurdod lleol Gogledd Cymru a Gogledd Cymru ([Llywodraeth Cymru, 2023](#)).

Ardal Awdurdod Lleol	Gwyn	Du	Asiaidd	Cymysg	Arall	Ddim yn hysbys
Conwy	97.2%	*	0.8%	0.8%	0.4%	0.4%
Sir Ddinbych	97.1%	*	1.0%	1.0%	*	0.5%
Sir y Fflint	97.6%	*	0.6%	0.3%	0.3%	0.9%
Wrecsam	96.8%	0.7%	0.7%	0.7%	0.7%	0.7%
Gwynedd	97.7%	0.7%	0.7%	0.3%	*	0.7%
Ynys Môn	99.0%	*	*	0.5%	*	*
Gogledd Cymru	97.6%	0.3%	0.6%	0.6%	0.4%	0.6%

\*data na ddatgelwyd oherwydd niferoedd bach iawn

Roedd y mwyafrif helaeth (97.6%) o bobl ar raglenni prentisiaeth ledled Gogledd Cymru yn 2021/22 wedi nodi eu bod yn Wyn, canran tebyg i'r hyn nodwyd yn yr adroddiad blaenorol (98.3% yn 2017/18). Roedd 0.3% wedi nodi eu hunain yn Ddu, 0.6% fel Asiaidd, 0.6% yn Gymysg a 0.4% fel Arall.

Dangosir canran y bobl ar raglenni prentisiaeth a nododd eu bod yn anabl (yn effeithio ar ddysgu) ar draws Gogledd Cymru ac yn y chwe ardal awdurdod lleol yn y ffigur isod (Ffigur 33).



Ffigur 33 – Canran y dysgwyr ag anabledd (sy'n effeithio ar ddysgu) yn 2021/22 ar gyfer ardaloedd awdurdod lleol Gogledd Cymru a Gogledd Cymru ([Llywodraeth Cymru, 2023](#)).

Roedd canran y bobl ar raglenni prentisiaeth ledled Gogledd Cymru a nododd eu bod yn anabl (yn effeithio ar ddysgu) yn 3.3%, cynnydd bach o'r adroddiad blaenorol (2.1% yn 2017/18). Mae'r ganran yn 2021/22 yn amrywio ar draws yr ardaloedd awdurdod lleol o 2.7% yn Sir y Fflint i 4.7% yn Ynys Môn.


## 6. Safonau Byw

### 6.1 Tai

#### 6.1.1 Gorlenwi a Llety Addas

Pan ysgrifennwyd yr adroddiad 'Cydraddoldeb yng Ngogledd Cymru' blaenorol yn 2019, nid oedd data lleol perthnasol ar gael i ategu'r drafodaeth yn nogfen Cymru gyfan 'A yw Cymru'n Decach (2018)'.


Fodd bynnag, mae'r data graddfa deiliadaeth ar gyfer ystafelloedd gwely o Gyfrifiad 2021 yn darparu'r wybodaeth i asesu gorlenwi yn ardaloedd awdurdod lleol Gogledd Cymru fel y dangosir yn y ffigur isod (Ffigur 34).



Ffigur34 – Canran yr aelwydydd gorlawn yng Ngogledd Cymru a phob un o'r chwe ardal awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru fel ddangosir yng Nghyfrifiad 2021 ([ONS, 2023](#)).

Mae'r ffigur hwn yn dangos bod 2% o aelwydydd Gogledd Cymru yn orlawn, gyda'r ganran uchaf ymysg yr ardaloedd awdurdod lleol yn Wrecsam (2.5%) a'r isaf yn Ynys Môn (1.6%).


Mae data ar gael o Gyfrifiad 2021 sy'n dadansoddi'r ganran o'r boblogaeth sy'n byw mewn Aelwydydd Gorlawn - llai o ystafelloedd gwely nag sy'n ofynnol, fesul grŵp ethnig (Ffigur 35).



Ffigur 35 - Canran o'r boblogaeth sy'n byw mewn Aelwydydd Gorlawn - llai o ystafelloedd gwely nag sy'n ofynnol, yn ôl Grŵp Ethnig (ONS, 2023).

Yng Ngogledd Cymru, roedd canran y boblogaeth sy'n byw mewn aelwydydd gorlawn (llai o ystafelloedd gwely nag sy'n ofynnol) yng Nghyfrifiad 2021 yn amrywio o 4.1% (Gwyn) i 11.8% (Grŵp Ethnig Arall). Gwelwyd rhywfaint o amrywiaeth yn ardaloedd awdurdod lleol Gogledd Cymru, lle roedd y ganran uchaf o'r boblogaeth yn byw mewn aelwydydd gorlawn yn Wrecsam yn y grŵp Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribiaidd neu Affricanaidd (20.1%) ac yn Ynys Môn yn y grŵp Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Gymry Asiaidd (13.4%).

Roedd data Cyfrifiad 2021 hefyd yn dadansoddi y boblogaeth sy'n byw mewn aelwydydd gorlawn fesul iechyd cyffredinol (Ffigur 36).




Ffigur 36 - Canran o'r boblogaeth sy'n byw mewn Aelwydydd Gorlawn - llai o ystafelloedd gwely nag sy'n ofynnol, fesul Iechyd Cyffredinol (ONS, 2023).

Yng Ngogledd Cymru a'r holl ardaloedd awdurdod lleol, roedd cyfran y boblogaeth sy'n byw mewn aelwydydd gorlawn ar ei uchaf ymhlith y rhai ag iechyd da neu iechyd da iawn. Yng Ngogledd Cymru, roedd y ganran yn 4.5% ymhlith y rhai mewn iechyd da neu iechyd da iawn, 3.2% mewn iechyd teg a 3.1 mewn iechyd gwael neu wael iawn.

### 6.1.2 Digartrefedd

O'r aelwydydd dan fgythiad o ddigartrefedd yn 2021/22, roedd mwyafrif yr ymgeiswyr yn ferched ledled Gogledd Cymru ac ym mhob un o'r chwe ardal awdurdod lleol fel y dangosir isod (Ffigur 37).




Ffigur37 – Aelwydydd dan fygythiad o fod yn ddigartref (Adran 66) yn 2021/22 wedi'u rhannu yn ôl rhywedd ([Llywodraeth Cymru, 2022](#)).

Roedd yr anghyfartaledd rhywedd hwn hefyd yn bresennol yn y data ar gyfer 2018/19 a gynhwyswyd yn yr adroddiad cydraddoldeb Gogledd Cymru blaenorol, lle oedd 63.0% o'r ymgeiswyr ledled Gogledd Cymru yn ferched. Yn 2021/22 yr ardal awdurdod lleol gyda'r ganran uchaf o ferched oedd Gwynedd (69.6%) a'r isaf oedd Sir Ddinbych (51.9%).

Yn groes i hynny, gwrywod oedd mwyafrif yr ymgeiswyr o'r aelwydydd oedd yn ddigartref a lle roedd dyletswydd i'w helpu i sicrhau llety, fel ddangosir yn y ffigur isod (Ffigur 38).






Ffigur38 – Aelwydydd a aseswyd fel rhai digartref a bod dyletswydd i'w helpu i sicrhau llety (Adran 73) yn 2021/22 wedi'i rannu yn ôl rhywedd ([Llywodraeth Cymru, 2022](#)).

Yng Ngogledd Cymru roedd 61.3% o aelwydydd a aseswyd yn ddigartref a lle bod dyletswydd i'w helpu i sicrhau llety (Adran 73) yn 2021/22 yn ddynion. Ym mhob un o'r chwe ardal awdurdod lleol roedd y mwyafrif yn ddynion, gyda'r ganran uchaf yng Ngwynedd (70.9%) a'r isaf yng Nghonwy (56.5%).

Roedd yr anghyfarledd rhywedd hwn hefyd yn bresennol yn y data o 2018/19 lle roedd mwyafrif yr aelwydydd digartref y rhoddwyd cymorth iddynt i ddod o hyd i lety yn ddynion. Er nad oes modd cymharu'r data hwn yn uniongyrchol gan fod y broses wedi newid, roedd 58.7% o aelwydydd digartref gafodd gymorth i ddod o hyd i lety yn 2018/19 ledled Gogledd Cymru yn ddynion ac ym mhob un o'r chwe ardal leol yn 2018/19.

Mae data pellach ar gael sy'n dangos aelwydydd y dynodwyd eu bod yn anfwriadol ddigartref ac mewn angen blaenoriaethol yn 2021/22 wedi'u rhannu yn ôl rhywedd fel y dangosir yn y ffigur isod (Ffigur 39).




Ffigur39 – Aelwydydd a nodwyd fel rhai anfwriadol ddigartref a'u hangen yn flaenoriaeth (Adran 75) yn 2021/22 wedi'u rhannu yn ôl rhywedd ([Llywodraeth Cymru, 2022](#)).

Roedd mwyafrif yr aelwydydd a ddynodwyd fel rhai anfwriadol ddigartref, ac mewn angen blaenoriaethol yn 2021/22 ar draws Gogledd Cymru yn ddynion (58.1%), fodd bynnag nid oedd hyn yn wir ar draws y chwe ardal awdurdod lleol. Roedd y mwyafrif yng Nghonwy (53.0%), Sir Ddinbych (60.8%), Gwynedd (60.0%) a Wrecsam (60.9%) yn ddynion, tra bod y mwyafrif yn Sir y Fflint (66.7%) yn ferched ac roedd gan Ynys Môn gyfran gyfartal o aelwydydd gwrywaidd a benywaidd.

### 6.1.3 Budd-daliadau Tai

Mae data ar gael sy'n nodi canran yr aelwydydd ar Gredyd Cynhwysol yng Ngogledd Cymru a'r chwe ardal awdurdod lleol, fel y dangosir yn y ffigur isod (Ffigur 40). Ni chafodd y data hwn ei gynnwys yn yr adroddiad blaenorol.




Ffigur 40 – Canran yr aelwydydd ar Gredyd Cynhwysol rhwng Tachwedd 2021 a Thachwedd 2022 yng Ngogledd Cymru a'r chwe ardal awdurdod lleol (Gov, 2022).

Yng Ngogledd Cymru ym mis Tachwedd 2021 roedd 9.6% o aelwydydd ar Gredyd Cynhwysol, ffigur a gynyddodd yn raddol i 10.2% ym mis Tachwedd 2022.

Wrth ddadansoddi'r data yn ôl ardal awdurdod lleol, roedd y ganran uchaf o aelwydydd ar Gredyd Cynhwysol bob mis yn ystod y cyfnod yn Wrecsam (11.9% - 12.7%). Roedd y canrannau isaf yng Ngwynedd (8.4% - 9.0%) ac Ynys Môn (8.4% - 9.2%).

#### 6.1.4 Daliadaeth Tai


Casglwyd data deiliadaeth tai yng Nghyfrifiad 2021, a dangosir y data hwn yn y ffigurau isod (Ffigur 41 i 48). Mae'r rhan fwyaf o'r data hwn yn ddata ychwanegol na chafodd ei gynnwys yn yr adroddiad blaenorol.




Ffigur 41 - Daliadaeth Tai fesul Person Cyswllt y Cartref (ONS, 2023).

Mae data Cyfrifiad 2021 yn dangos bod y rhan fwyaf o ddeiliadaeth tai fesul person cyswllt cartref yng Ngogledd Cymru yn eiddo wedi'i berchnogi (67.6%), canran sy'n amrywio yn yr ardaloedd lleol o 62.8% (Wrecsam) i 72.2% (Sir y Fflint). Yng Ngogledd Cymru, mae canran y bobl sy'n rhentu'n breifat neu'n byw yn ddi-rent ychydig yn uwch na'r ganran sy'n rhentu cymdeithasol (16.8% a 15.6% yn y drefn honno). Mae hyn yn amrywio yn rhai o'r ardaloedd awdurdod lleol, gyda Wrecsam a Sir y Fflint ill dau â chanran uwch o rent cymdeithasol na rhent preifat neu fyw yn ddi-rent.


Nodir dadansoddiad fesul grŵp ethnig person cyswllt y cartref isod.



Ffigur 42 - Daliadaeth Tai: Statws Wedi'i Berchnogi fesul Grŵp Ethnig person cyswllt y cartref (ONS, 2023).




Ffigur 43 - Daliadaeth Tai: Statws Rhent Cymdeithasol fesul Grŵp Ethnig person cyswllt y cartref (ONS, 2023).




Ffigur 44- Daliadaeth Tai: Statws Rhent Preifat fesul Grŵp Ethnig person cyswllt y cartref (ONS, 2023).

Yng Ngogledd Cymru, roedd canran statws deiliadaeth tai wedi'u perchnogi fesul grŵp ethnig yn amrywio o 35.0% (Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribiaidd neu Affricanaidd) i 68.0% (Gwyn). Roedd canran y statws deiliadaeth tai rhent cymdeithasol fesul grŵp ethnig yn amrywio o 8.1% (Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig) i 21.5% (Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribiaidd neu Affricanaidd). Roedd canran statws deiliadaeth tai rhent preifat fesul grŵp ethnig yn amrywio o 16.3% (Gwyn) i 48.5% (Grŵp Ethnig Eraill). Gwelir rhywfaint o amrywiad ar lefel awdurdod lleol fel y dangosir yn y ffigurau uchod.


Dangosir dadansoddiad yn ôl oedran person cyswllt y cartref isod.



Ffigur 45 - Daliadaeth: Statws a Berchnogwyd fesul oedran person cyswllt y cartref (ONS, 2023).




Ffigur 46 - Daliadaeth: Statws Rhent Cymdeithasol fesul oedran person cyswllt y cartref (ONS, 2023).



Ffigur 47 - Daliadaeth : Statws Rhent Preifat fesul oedran person cyswllt y cartref (ONS, 2023).

Os dadansoddir “personau cyswllt y cartref” yng Nghyfrifiad 2021 fesul eu grŵp oedran (yn gyffredinol, “person cyswllt y cartref” yw’r aelod o’r aelwyd sydd berchen yr eiddo neu’n gyfrifol am dalu rhent), yna roedd y cyfran o bersonau cyswllt y cartref oedd yn berchen eu heiddo yn amrywio fesul grŵp oedran, o 47.0% (15 oed ac iau) i 78.7% (65 oed a throsodd). Roedd y cyfran o bersonau cyswllt y cartref oedd â statws rhent cymdeithasol yn amrywio o 13.4% (65 oed a throsodd) i 22.7% (15 oed ac iau). Roedd y cyfran o bersonau cyswllt y cartref oedd â statws rhent preifat yn amrywio o 7.9% (65 oed a throsodd) i 30.3% (15 oed ac iau). Ar lefel awdurdod lleol gwelwyd rhywfaint o amrywiad ym mhob un o’r tri statws daliadaeth tai, yn arbennig o ran canran y rhai 15 oed ac iau oedd yn amrywio yn fawr fesul ardal awdurdod lleol.

Dangosir dadansoddiad o’r rhai oedd â statws perchennog tŷ yn unig fesul lefel uchaf o gymwysterau person cyswllt y cartref isod.



Ffigur 48 - Daliadaeth: Statws Wedi'i Berchnogi fesul lefel uchaf cymwysterau person cyswllt y cartref (ONS, 2023).

Yng Ngogledd Cymru roedd cyfran uwch o'r rhai â chymwysterau Lefel 4 yn berchen ar eu cartrefi eu hunain (77.3%) gyda'r isaf ymhlith y rhai heb unrhyw gymwysterau (56.1%). Roedd hyn hefyd yn wir ym mhob ardal awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru.

#### 6.1.5 Tai ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr

Mae'r tabl canlynol (Tabl 5) yn cynnwys data o Gyfrifiad 2021 ac ni chafodd ei gynnwys yn yr adroddiad cydraddoldeb blaenorol.

Tabl5 – Data grwpiau ethnig o Gyfrifiad 2021 ar gyfer Gogledd Cymru a'r chwe ardal awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru (ONS, 2022).

Ardal	Cyfanswm: Pob preswlydd arferol	Gwyn: Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig		Gwyn: Roma	
	Nifer	Nifer	Cyfradd fesul 10,000 o bobl	Nifer	Cyfradd fesul 10,000 o bobl
Conwy	114,743	104	9.1	19	1.7
Sir Ddinbych	95,820	62	6.5	32	3.3
Sir y Fflint	154,960	123	7.9	74	4.8
Gwynedd	117,392	111	9.5	45	3.8
Ynys Môn	68,879	54	7.8	33	4.8
Wrecsam	135,122	119	8.8	64	4.7
<b>Gogledd Cymru</b>	<b>686,916</b>	<b>573</b>	<b>8.3</b>	<b>267</b>	<b>3.9</b>

Mae'r tabl isod (Tabl 6) yn cynnwys y data diweddaraf sy'n nodi nifer y carafanau sipsiwn a theithwyr yng Ngogledd Cymru, sy'n dangos cyfanswm o 271 o garafanau.



Tabl6 – Nifer y carafanau Sipsiwn a Theithwyr ym mhob un o'r chwe ardal awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru ar 21 Gorffennaf 2022 ([Llywodraeth Cymru, 2022](#)).

Ardal	Cyfanswm nifer y carafanau ar safleoedd awdurdodedig	Cyfanswm nifer y carafanau ar safleoedd anawdurdodedig	Holl garafanau
Conwy	4	3	7
Sir Ddinbych	0	36	36
Sir y Fflint	132	26	158
Gwynedd	14	8	22
Ynys Môn	0	3	3
Wrecsam	36	9	45
<b>Gogledd Cymru</b>	<b>186</b>	<b>85</b>	<b>271</b>

### 6.1.6 Tai Hygyrch i Bobl Anabl

Mae'r data diweddaraf sydd ar gael yn nodi nifer y grantiau cyfleusterau anabl a gwblhawyd yn seiliedig ar 2021/22 ac fe'i dangosir yn y tabl isod (Tabl 7).

Tabl7 – Nifer y Grantiau Cyfleusterau Anabl a gwblhawyd yn 2021/22 ar gyfer pob un o'r chwe ardal awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru ([Llywodraeth Cymru, 2022](#)).

Ardal	Nifer y ceisiadau grant gymeradwywyd	Perchen-feddiannwr	Rhentu preifat	Tenant awdurdod lleol / landlord cymdeithasol cofrestredig	Cyfanswm	% o'r grantiau gymeradwywyd a gwblhawyd
Conwy	123	83	23	6	112	91%
Sir Ddinbych	78	54	19	0	73	94%
Sir y Fflint	41	38	5	0	43	10%0%
Gwynedd	39	32	7	0	39	100%
Ynys Môn	55	50	4	0	54	98%
Wrecsam	123	32	4	33	69	56%
<b>Gogledd Cymru</b>	<b>459</b>	<b>289</b>	<b>62</b>	<b>39</b>	<b>390</b>	<b>85%</b>

Yn 2021/22 cwblhawyd 390 o Grantiau Cyfleusterau Anabl ledled Gogledd Cymru allan o gyfanswm o 459 o geisiadau grant a gymeradwywyd, mae hyn yn cyfateb i 85% o'r grantiau gymeradwywyd yn cael eu cwblhau. Mae nifer y grantiau a gymeradwywyd ac a gwblhawyd wedi gostwng o'r nifer a nodwyd yn adroddiad cydraddoldeb diwethaf Gogledd Cymru. Roedd data o 2017/18 yn dangos bod 729 o geisiadau grant wedi'u cymeradwyo a 716 wedi'u cwblhau, gyda 98% o'r grantiau gymeradwywyd wedi'u cwblhau.

Mae'r tabl uchod yn dangos bod mwyafrif y grantiau a gwblhawyd yng Ngogledd Cymru yn 2021/22 ar gyfer perchen-feddiannwr. Roedd hyn hefyd yn wir mewn pump o'r chwe ardal awdurdod lleol, ond yn Wrecsam roedd nifer y perchen-feddiannwr a thenantiaid awdurdod lleol / landlord cymdeithasol bron yn gyfartal (32 a 33 yn y drefn honno).

### 6.1.7 Tai i Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches

Pan ysgrifennwyd yr adroddiad 'Cydraddoldeb yng Ngogledd Cymru' blaenorol yn 2019, nid oedd data lleol perthnasol ar gael i ategu'r drafodaeth yn nogfen Cymru gyfan 'A yw Cymru'n Decach (2018)'.

Fodd bynnag, canfuwyd data ychwanegol sy'n nodi nifer y ffoaduriaid a ailgartrefwyd fesul cynllun ailgartrefu ac awdurdod lleol. Defnyddiwyd y data hwn i gyfrifo cyfanswm nifer y ffoaduriaid a ailgartrefwyd ers 2016 ym mhob awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru fel nodir yn y tabl isod (Tabl 8).

Tabl 8 – Nifer y ffoaduriaid a ailgartrefwyd ers 2016 yng Ngogledd Cymru a'r chwe ardal awdurdod lleol, data wedi'i ddiweddarau ddiwethaf Tachwedd 2022 ([gov.uk](http://gov.uk), 2022).

Ardal	Ffoaduriaid a ailgartrefwyd ers 2016
Conwy	17
Sir Ddinbych	81
Sir y Fflint	49
Gwynedd	39
Ynys Môn	27
Wrecsam	79
<b>Gogledd Cymru</b>	<b>292</b>

Mae'r tabl hwn yn dangos bod cyfanswm o 292 o ffoaduriaid wedi'u hailgartrefu yng Ngogledd Cymru ers 2016 (data'n gywir ym mis Tachwedd 2022).

## 6.2 Tlodi

### 6.2.1 Tlodi Cymharol ac Amddifadedd Materol Difrifol

Mae data am y canran o bobl sy'n byw mewn cartrefi mewn amddifadedd materol ar gael fesul awdurdod lleol, fodd bynnag oherwydd meintiau sampl isel ni chyhoeddir y wybodaeth hon y fesul nodwedd ac eithrio rhai awdurdodau lle mae ffigur ar gyfer merched ar gael. Nodir y data hwn yn y tabl isod (Tabl 9). Mesurir amddifadedd materol yma drwy allu hunan-gofnodedig aelwydydd i fforddio nwyddau a gweithgareddau penodol.

Tabl 9 Canran y bobl sy'n byw mewn aelwydydd mewn amddifadedd materol yn 2021-22 yn ôl ardal awdurdod lleol a Chymru, gan gynnwys canran ar gyfer merched lle mae data ar gael ([Llywodraeth Cymru](http://Llywodraeth Cymru), 2022).

Ardal	Cyfanswm	Merched
Conwy	8%	11%
Sir Ddinbych	*	*
Sir y Fflint	12%	11%
Gwynedd	13%	14%
Ynys Môn	9%	*
Wrecsam	13%	14%
Cymru	11%	13%

\*Data ddim ar gael

Yng Nghymru yn 2021/22 roedd 11% o bobl yn byw mewn aelwydydd mewn amddifadedd materol. Yn y pum ardal awdurdod leol yng Ngogledd Cymru lle'r oedd data ar gael roedd y ganran hon yn amrywio rhwng 8% (Conwy) a 13% (Gwynedd a Wrecsam). Yn y data o 2018/19 a gynhwyswyd yn yr adroddiad blaenorol roedd y ganran hon yn amrywio o 9% (Sir y Fflint) i 16% (Sir Ddinbych). Mae awgrym y gallai cyfran y merched fod ychydig yn uwch na'r gyfran gyffredinol yn yr holl ardaloedd lleol a gynhwyswyd heblaw am Sir y Fflint.

#### 6.2.2 Nawdd Cymdeithasol a'r System Budd-daliadau

Fel yn yr adroddiad blaenorol, yn methu canfod data lleol perthnasol i ategu'r drafodaeth yn 'A yw Cymru'n Decach (2018)?'.

#### 6.2.3 Profiadau Grwpiau Risg-uwch: Tlodi Plant a Thlodi Pobl Anabl, Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches

Fel yn yr adroddiad blaenorol, yn methu canfod data lleol perthnasol i ategu'r drafodaeth yn 'A yw Cymru'n Decach (2018)?'.

#### 6.2.4 Tlodi Bwyd a Thanwydd

Fel yn yr adroddiad blaenorol, yn methu canfod data lleol perthnasol i ategu'r drafodaeth yn 'A yw Cymru'n Decach (2018)?' ar gyfer tlodi bwyd. Fodd bynnag, darganfuwyd rhywfaint o ddata ar gyfer ardaloedd awdurdod lleol Gogledd Cymru o ran tlodi tanwydd.

Mae'r data sydd ar gael i'r ardaloedd lleol yn dyddio o 2018, ac felly nid yw'n adlewyrchu'r cynnydd diweddar ym mhrisiau ynni ac felly mae'n annhebygol o ddarparu darlun llawn o dlodi tanwydd yng Ngogledd Cymru. Gan gadw hyn mewn cof, amcangyfrifodd y data o 2018 fod cyfran yr aelwydydd mewn tlodi tanwydd fel a ganlyn:

- 12% o aelwydydd yng Nghonwy
- 12% o aelwydydd yn Sir Ddinbych
- 9% o aelwydydd yn Sir y Fflint
- 23% o aelwydydd Gwynedd
- 17% o aelwydydd Ynys Môn
- 10% o aelwydydd yn Wrecsam

*(Tŷ'r Cyffredin, 2023)*

Roedd hyn yn cymharu gyda 12% ledled Cymru yn 2018. Byddai data wedi'i ddiweddarau yn hanfodol i allu asesu lefelau tlodi tanwydd Gogledd Cymru yn llawn.

Mae data ar gael o Hydref 2021 sy'n edrych ar dlodi tanwydd yng Nghymru ([Llywodraeth Cymru, 2022](#)). Mae'r data hwn yn dangos bod rhai aelwydydd mewn mwy o berygl o fod mewn tlodi tanwydd, gan gynnwys aelwydydd sy'n byw yn y sector rhentu preifat, aelwydydd person sengl heb blant, aelwydydd lle mae'r ymatebydd yn ddi-waith neu ar fudd-daliadau prawf modd, aelwydydd sy'n byw mewn eiddo hŷn, aelwydydd sy'n byw mewn anheddau heb wres canolog ac aelwydydd â graddfa EPC is.

#### 6.2.5 Dosbarthiad Incwm a Chyfoeth

Nid oedd modd canfod data wedi'i ddiweddarau.

## 6.3 Gofal Cymdeithasol

### 6.3.1 Mynediad at Ofal Cymdeithasol

Nid oedd modd canfod data wedi'i ddiweddarau.

### 6.3.2 Effaith Cyllido Gofal Cymdeithasol ar Ddarpariaeth Gwasanaethau

Fel yn yr adroddiad blaenorol, yn methu canfod data lleol perthnasol i ategu'r drafodaeth yn 'A yw Cymru'n Decach (2018)?'.

### 6.3.3 Ansawdd Gofal Cymdeithasol

Nid oedd modd canfod data wedi'i ddiweddarau.

### 6.3.4 Dewis a Rheolaeth Dros Gefnogaeth i Alluogi Byw'n Annibynnol ac Eiriolaeth Annibynnol


Fel yn yr adroddiad blaenorol, yn methu canfod data lleol perthnasol i ategu'r drafodaeth yn 'A yw Cymru'n Decach (2018)?'.

### 6.3.5 Urddas a Pharch mewn Gofal Cymdeithasol

Fel yn yr adroddiad blaenorol, yn methu canfod data lleol perthnasol i ategu'r drafodaeth yn 'A yw Cymru'n Decach (2018)?'.

### 6.3.6 Effaith Gofalu ar Ofalwyr


Dangosir y data ar gyfer darparu gofal di-dâl o Gyfrifiad 2021 ar gyfer yr ardaloedd awdurdod lleol a Gogledd Cymru isod (Ffigur 49).



Ffigur 49 Darpariaeth gofal di-dâl yng Ngogledd Cymru a'r chwe ardal awdurdod lleol - Cyfrifiad 2021 (ONS, 2023).


Yng Ngogledd Cymru canfu Cyfrifiad 2021 fod 4.6% o bobl 5 oed a throsodd yn darparu 19 awr neu lai o ofal di-dâl yr wythnos, 2.1% yn darparu 20 i 49 awr a 3.5% yn darparu 50 awr neu fwy o ofal di-dâl yr wythnos. Dylid nodi mai data a gasglwyd yn ystod pandemig Covid oedd hwn a allai fod wedi effeithio ar y canrannau hyn.

Dangosir data pellach sy'n dadansoddi darpariaeth gofal di-dâl isod, mae'r data sy'n dadansoddi darpariaeth gofal di-dâl fesul grŵp ethnig a chrefydd yn ddata ychwanegol na chafodd ei gynnwys yn yr adroddiad blaenorol.




Ffigwr 50 – Canran o'r boblogaeth sy'n darparu gofal di-dâl yn ôl grŵp oedran (ONS, 2023).

Yng Ngogledd Cymru, y gyfran uchaf sy'n darparu gofal di-dâl yw'r rhai rhwng 50 a 64 oed (16.9%) a'r isaf yw 15 oed ac iau (1.4%). Yn y data Cyfrifiad 2011 a gynhwyswyd yn yr adroddiad blaenorol, y gyfran uchaf oedd yn darparu gofal di-dâl oedd hefyd y rhai rhwng 50 a 64 oed (20.6%) a'r isaf yn 15 oed ac iau (2.8%). Mae'r data ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghyfrifiadau 2021 a 2011 hefyd yn dangos mai'r gyfran uchaf sy'n darparu gofal di-dâl yw'r rhai 50 i 64 oed a'r isaf yw'r rhai 15 oed ac iau.




Ffigwr 51 – Canran o'r boblogaeth sy'n darparu gofal di-dâl fesul rhyw ([ONS, 2023](#)).

Yng Ngogledd Cymru, mae cyfran uwch o ferched (11.7%) yn darparu gofal di-dâl na dynion (8.6%). Mae hyn yn gyson ar draws yr ardaloedd awdurdod lleol. Yng Nghyfrifiad 2011 yng Ngogledd Cymru roedd cyfran y merched (13.1%) a oedd yn darparu gofal di-dâl yn uwch na dynion (10.0%). Gwelwyd hyn hefyd ym mhob ardal awdurdod lleol.




Ffigwr 52 – Canran o'r boblogaeth sy'n darparu gofal di-dâl fesul iechyd cyffredinol ([ONS, 2023](#)).

Yng Ngogledd Cymru, mae'r gyfran uchaf o'r rhai sy'n darparu gofal di-dâl mewn iechyd teg (14.8%), ac yna'r rhai mewn iechyd gwael neu wael iawn (12.9%), gyda'r gyfran isaf yn y boblogaeth mewn iechyd da neu dda iawn (9.1%). Mae hyn yn gyson ar draws yr ardaloedd awdurdod lleol.



Ffigur 53 – Canran o'r boblogaeth sy'n darparu gofal di-dâl fesul crefydd (ONS, 2023).

Yng Ngogledd Cymru, y gyfran uchaf o bobl sy'n darparu gofal di-dâl fesul crefydd oedd Crefydd Arall (18.3%) gyda'r isaf yn Hindwïaidd (4.9%). Gwelwyd rhywfaint o amrywiad yn y gwahanol ardaloedd awdurdod lleol fel y gwelir yn y ffigur uchod.



Ffigur 54 – Canran o'r boblogaeth sy'n darparu gofal di-dâl fesul grŵp ethnig (ONS, 2023).

Yng Ngogledd Cymru, y gyfran uchaf o bobl sy'n darparu gofal di-dâl fesul grŵp ethnig oedd Gwyn (10.3%) a'r isaf oedd Grŵp Ethnig Arall (5.2%). Gwelwyd rhywfaint o amrywiaeth yn yr ardaloedd awdurdod lleol.

## 6.3.7 Cam-drin ac Esgeulustod

Roedd Adroddiad Cydraddoldeb diwethaf Gogledd Cymru yn cynnwys data 2017/18 ar gyfer oedolion mewn perygl. Mae'r data diweddaraf a ganfuwyd ar gyfer 2018/19 ac fe'i dangosir yn y tabl isod (Tabl 10).

Tabl 10 - Oedolion yr amheuir eu bod mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso a adroddwyd yn ystod y flwyddyn yn ôl ardal awdurdod lleol ([Llywodraeth Cymru, 2019](#))

Ardal	2016/17	2017/18	2018/19	Cynnydd rhwng 17/18 a 18/19
Ynys Môn	166	174	204	17.2%
Gwynedd	349	326	394	20.9%
Conwy	286	468	552	17.9%
Sir Ddinbych	398	422	450	6.6%
Sir y Fflint	350	403	501	24.3%
Wrecsam	786	793	827	4.3%
<b>Gogledd Cymru</b>	<b>2,335</b>	<b>2,586</b>	<b>2,928</b>	<b>13.2%</b>
<b>Cymru</b>	<b>11,761</b>	<b>13,741</b>	<b>14,938</b>	<b>8.7%</b>

Yn 2018/19 amheuwyd bod 2,928 o oedolion mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso yng Ngogledd Cymru, cynnydd o'i gymharu â 2,335 yn 2016/17 a 2,586 yn 2017/18.

Nodwyd data ychwanegol hefyd ynghylch plant yn derbyn gofal a chefnogaeth ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, fel y dangosir yn y tabl isod (Tabl 11).



Tabl 11 - Plant sy'n derbyn gofal a chefnogaeth ar y Gofrestr Amddiffyn Plant fesul awdurdod lleol a rhywedd ([Llywodraeth Cymru, 2022](#))

Ardal	2018			2019			2020			2021		
	Gwryw	Benyw	Holl	Gwryw	Benyw	Holl	Gwryw	Benyw	Holl	Gwryw	Benyw	Holl
Ynys Môn	20	20	40	35	40	80	40	30	70	30	35	65
Gwynedd	45	40	85	20	25	50	40	35	75	50	50	95
Conwy	30	20	50	20	20	40	30	25	55	10	20	30
Sir Ddinbych	35	45	80	40	70	110	40	60	95	25	25	50
Sir y Fflint	55	50	110	55	30	85	65	50	115	55	55	110
Wrecsam	55	65	120	75	80	155	70	70	140	60	70	130
<b>Gogledd Cymru</b>	<b>240</b>	<b>240</b>	<b>485</b>	<b>245</b>	<b>265</b>	<b>520</b>	<b>285</b>	<b>270</b>	<b>550</b>	<b>230</b>	<b>255</b>	<b>480</b>
<b>Cymru</b>	<b>1,220</b>	<b>1,145</b>	<b>2,365</b>	<b>1,135</b>	<b>1,075</b>	<b>2,210</b>	<b>1,250</b>	<b>1,130</b>	<b>2,380</b>	<b>1,240</b>	<b>1,225</b>	<b>2,470</b>


Yn 2021 roedd 480 o blant yn derbyn gofal a chymorth ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yng Ngogledd Cymru, sy'n cyfateb i 3.6 fesul 1,000 o'r boblogaeth o dan 18 oed.

## 7. Iechyd

### 7.1 Mynediad at Iechyd

#### 7.1.1 Amseroedd Aros ac Atgyfeirio

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) yw bwrdd iechyd ardal Gogledd Cymru, ac mae data ar gael sy'n dangos canran y cleifion sy'n aros mwy na 26 wythnos am driniaeth yn y bwrdd iechyd hwn, fel y dangosir yn y ffigur isod (Ffigur 55).



Ffigur 55 – Atgyfeiriad i driniaeth: canran amseroedd aros dros 26 wythnos ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ([Llywodraeth Cymru, 2023](#)).

Yn ôl y data diweddaraf sydd ar gael (Tachwedd 2022) roedd 45.6% o gleifion wedi aros mwy na 26 wythnos am driniaeth (amseroedd aros rhwng cyfeirio a thriniaeth). Mae hyn yn sylweddol uwch na'r data a gynhwyswyd yn adroddiad cydraddoldeb diwethaf Gogledd Cymru lle roedd 12.7% o gleifion yn aros mwy na 26 wythnos am driniaeth (Gorffennaf 2019). Roedd amseroedd aros yn cynyddu cyn pandemig Covid-19, fodd bynnag gwaethygodd y sefyllfa'n sylweddol yn ystod 2020 pan gyrhaeddodd y ganran hon uchafbwynt o 57.3% ym mis Medi 2020.

Mae data hefyd ar gael ar gyfer amseroedd ymateb argyfwng Gwasanaeth Ambiwlans Cymru ar gyfer galwadau coch ac ambr. Caiff y data hyn ei ddangos fesul bwrdd iechyd lleol a Chymru gyfan, ond ym mhob achos mae'r data yma yn ymwneud â gwasanaeth ddarparwyd gan Wasanaeth Ambiwlans Cymru.

Mae galwadau coch yn peryglu bywyd ar unwaith (hynny yw claf sydd mewn perygl o farw, fel ataliad ar y galon). Yn ôl y data diweddaraf sydd ar gael gan [Llywodraeth Cymru](#) ym mis Rhagfyr 2022, ymatebwyd i 37.7% o alwadau coch yn ardal BIPBC gan Wasanaeth Ambiwlans Cymru o fewn 8 munud. Mae hyn wedi lleihau'n sylweddol o'r data gynhwyswyd yn yr adroddiad diwethaf ble ymatebwyd i 69.0% o alwadau coch mewn 8 munud ym Mehefin 2019. Roedd y ddau ganran yn is na chanran Cymru

gyfan lle ymatebwyd i 39.5% a 72.5% o alwadau coch mewn 8 munud ym mis Rhagfyr 2022 a Mehefin 2019 yn y drefn honno.

Mae galwadau oren yn ddifrifol ond ddim yn peryglu bywyd ar unwaith (hynny yw claf a fydd yn aml angen triniaeth ar y safle, ac efallai y bydd angen mynd â nhw i'r ysbyty wedyn). Yn ôl y data diweddaraf sydd ar gael gan [Lywodraeth Cymru](#), yn Rhagfyr 2022 ymatebwyd i 3.6% o alwadau oren yn ardal BIPBC gan Wasanaeth Ambiwlans Cymru o fewn 8 munud. Mae hyn wedi lleihau'n sylweddol o'r data gynhwyswyd yn yr adroddiad diwethaf ble ymatebwyd i 13.6% o alwadau oren mewn 8 munud ym Mehefin 2019. Roedd y ganran ar gyfer Rhagfyr 2022 yn is na chanran Cymru gyfan lle ymatebwyd i 4.1% o alwadau oren mewn 8 munud. Roedd y gwrthwyneb yn wir ym Mehefin 2019 lle'r oedd y ganran ar gyfer Cymru yn is nag ardal BIPBC, sef 12.1%.

### 7.1.2 Materion Mynediad ar gyfer Grwpiau Risg-uwch

Fel yn yr adroddiad blaenorol, yn methu dod o hyd i ddata lleol perthnasol i ategu'r drafodaeth yn 'A yw Cymru'n Decach (2018)?'.

## 7.2 Canlyniadau Iechyd

### 7.2.1 Statws Iechyd Cyfredol Pobl

Y data diweddaraf sydd ar gael sy'n mesur statws iechyd cyfredol pobl yw'r data iechyd cyffredinol hunan gofnodedig o Gyfrifiad 2021, gyda chanrannau ar gyfer pob un o ardaloedd awdurdod lleol Gogledd Cymru wedi'u nodi yn y tabl isod (Tabl 12). Nid oes modd cymharu'r data yma â'r adroddiad cydraddoldeb blaenorol gan fod yr adroddiad blaenorol yn edrych ar iechyd oedolion yn unig, tra bod yr adroddiad hwn yn cynnwys data ar gyfer holl breswylwyr arferol.


Tabl 12 - Iechyd cyffredinol yn 2021 ar gyfer holl breswylwyr arferol pob un o'r chwe ardal awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru a Chymru o Gyfrifiad 2021 ([ONS, 2023](#)).

Ardal	lechyd da iawn	lechyd da	lechyd teg	lechyd gwael	lechyd gwael iawn
Conwy	44.5	33.4	15.5	5.1	1.5
Sir Ddinbych	45.0	32.6	15.3	5.4	1.7
Sir y Fflint	47.4	33.5	13.5	4.3	1.3
Gwynedd	49.9	31.6	13.3	4.0	1.1
Ynys Môn	47.6	31.8	14.8	4.4	1.3
Wrecsam	45.4	34.0	14.3	4.9	1.3
<b>Gogledd Cymru</b>	<b>46.7</b>	<b>33.0</b>	<b>14.3</b>	<b>4.7</b>	<b>1.4</b>

Mae'r data hwn yn dangos mai Gwynedd sydd â'r gyfran uchaf o drigolion yng Ngogledd Cymru mewn iechyd da iawn yng Nghyfrifiad 2021 (49.9%), ac yna Ynys Môn (47.6%) a Sir y Fflint (47.4%). Ar y llaw arall, roedd y gyfran isaf mewn iechyd da iawn hunan-gofnodedig yng Nghonwy (44.5%).

Ar ben arall y raddfa, y ganran uchaf o'r trigolion a hunan-adroddodd iechyd gwael neu wael iawn oedd Sir Ddinbych (7.1%) ac yna Conwy (6.6%). Roedd y ganran isaf yng Ngwynedd (5.2%).


Mae'n bosibl dadansoddi'r data hwn yn ôl oedran, grŵp ethnig, rhyw, anabledd, dosbarth economaidd-gymdeithasol a chrefydd fel y dangosir yn y ffigurau isod sy'n edrych ar iechyd gwael neu wael iawn. Ni chynhwyswyd llawer o'r data hwn yn yr adroddiad blaenorol.



Ffigur 56 – Canran y boblogaeth sydd â iechyd gwael neu wael iawn yn ôl grŵp oedran ar gyfer pob un o'r chwe ardal awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru a Gogledd Cymru o Gyfrifiad 2021 (ONS, 2023).


Yng Ngogledd Cymru, mae data Cyfrifiad 2021 yn dangos mai'r grŵp oedran sydd â'r gyfran uchaf o bobl ag iechyd gwael neu wael iawn yw'r rhai 65 oed a hŷn (12.5%), gyda'r gyfran isaf yn y rhai 15 oed ac iau (0.5%). Gwelwyd hyn ym mhob ardal awdurdod lleol gyda rhywfaint o amrywiad yn y canrannau.

Roedd hefyd yn bosibl dadansoddi iechyd plant gan ddefnyddio Cyfrifiad 2021 (nas dangosir yn y ffigur uchod). Yng Ngogledd Cymru, o fewn y boblogaeth 17 oed neu iau â iechyd gwael neu wael iawn roedd y ganran uchaf rhwng 16 a 17 oed (1.2% o'r boblogaeth hon), ac roedd y ganran isaf yng Ngogledd Cymru ymysg y rhai 2 oed ac iau (0.3% o'r boblogaeth hon). Roedd rhywfaint o amrywiaeth yn yr ardaloedd awdurdod lleol er bod y ganran uchaf ymhlith y rhai 16 i 17 oed ym mhob ardal leol ac eithrio Sir Ddinbych lle'r oedd y ganran uchaf ymhlith y rhai 15 oed (1.7% o'r boblogaeth hon). Nid yw'n bosibl cymharu'r data hwn â'r data yn yr adroddiad blaenorol gan y defnyddiwyd ffynhonnell ddata amgen.




Ffigur 57 - Canran y boblogaeth sydd â iechyd gwael neu wael iawn yn ôl grŵp ethnig ar gyfer pob un o'r chwe ardal awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru a Gogledd Cymru o Gyfrifiad 2021 (ONS, 2023).

Yng Ngogledd Cymru, mae data Cyfrifiad 2021 yn dangos mai'r grŵp ethnig sydd â'r gyfran uchaf o bobl ag iechyd gwael neu wael iawn oedd Gwyn (6.2%), gyda'r gyfran isaf ar gyfer Cymry Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd (2.0%). Gwyn oedd y gyfran uchaf ym mhob ardal awdurdod lleol, er bod canran debyg o bobl Gwyn a Du, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribiaidd neu Affricanaidd ag iechyd gwael neu wael iawn yn Ynys Môn (5.8% a 5.7% yn y drefn honno). Y gyfran isaf oedd Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd Cymreig ym mhob ardal leol ac eithrio Sir Ddinbych lle'r oedd y gyfran isaf yn Ddu, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribiaidd neu Affricanaidd.




Ffigur 58- Canran y boblogaeth sydd â iechyd gwael neu wael iawn yn ôl rhyw ar gyfer pob un o'r chwe ardal awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru a Gogledd Cymru o Gyfrifiad 2021 (ONS, 2023).

Yng Ngogledd Cymru, roedd cyfran uwch o'r boblogaeth fenywaidd mewn iechyd gwael neu wael iawn (6.4%) o'i gymharu â dynion (5.7%). Roedd hyn yn gyson ym mhob ardal awdurdod lleol.




Ffigur 59 - Canran y boblogaeth sydd â iechyd gwael neu wael iawn yn ôl anabledd ar gyfer pob un o'r chwe ardal awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru a Gogledd Cymru o Gyfrifiad 2021 (ONS, 2023).

27.1% oedd y canran o bobl anabl ag iechyd gwael neu wael iawn yng Nghyfrifiad 2021 yng Ngogledd Cymru, sy'n llawer uwch na'r gyfran o bobl nad oeddent yn anabl, sef 0.6%. Roedd hyn yn gyson ym mhob ardal awdurdod lleol.



Ffigur 60 Canran y boblogaeth oedran gweithio sydd â iechyd gwael neu wael iawn fesul dosbarthiad economaidd-gymdeithasol ar gyfer y chwe ardal awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru a Gogledd Cymru o Gyfrifiad 2021 (ONS, 2023).

Yng Ngogledd Cymru a'r holl ardaloedd lleol, roedd y gyfran uchaf o bobl oed gweithio â iechyd gwael neu wael iawn fesul dosbarthiad economaidd-gymdeithasol ymhlith pobl nad ydynt erioed wedi gweithio ac yn ddi-waith yn y tymor hir, lle'r oedd y gyfran yn 18.5% yng Ngogledd Cymru. Roedd y gyfran isaf yng Ngogledd Cymru a'r ardaloedd lleol ymhlith myfyrwyr llawn amser, gyda chyfran o 1.8% yng Ngogledd Cymru.



Ffigur 61- Canran y boblogaeth ag iechyd gwael neu wael iawn yn ôl crefydd ar gyfer pob un o'r chwe ardal awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru a Gogledd Cymru o Gyfrifiad 2021 (ONS, 2023).

Yng Ngogledd Cymru, y ganran uchaf o'r boblogaeth ag iechyd gwael neu wael iawn fesul crefydd oedd Crefydd Arall (13.8%) a'r isaf oedd Hindŵ (1.5%). Roedd rhywfaint o amrywiaeth yn y gwahanol ardaloedd awdurdod lleol.

### 7.2.2 Canlyniadau Iechyd ar gyfer Grwpiau Eraill

Canfuwyd data ychwanegol yn edrych ar ganlyniadau iechyd ar gyfer gwahanol grwpiau na chafodd ei gynnwys yn yr adroddiad blaenorol.

#### Digartrefedd

Mae cyhoeddiad gan Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) sy'n edrych ar iechyd unigolion gafodd brofiad byw o ddigartrefedd yng Nghymru yn ystod pandemig Covid yn nodi bod digartrefedd yn achosi ac yn ganlyniad i ganlyniadau iechyd gwael, yn ogystal â'i gwneud yn anodd cael mynediad at ofal iechyd ([Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2021](#)). Gall problemau iechyd gynnwys iechyd meddwl gwael, salwch corfforol a dibyniaeth ar sylweddau (ICC, 2021). Caiff y boblogaeth ddigartref ei effeithio hefyd gan afiachedd ychwanegol y gellid bod wedi'i atal, a disgwyliad iechyd is, ac mae'r tablau isod yn nodi nifer y marwolaethau pobl ddigartref fesul ardal awdurdod lleol (Tabl 13) a'r oedran cymedrig adeg marwolaeth ymhlith pobl ddigartref yng Nghymru a Lloegr (Tabl 14).

Tabl 13 - Marwolaethau pobl ddigartref (adnabuwyd ac amcangyfrifwyd) yn ôl awdurdod lleol, 2017 i 2021, ar gyfer y chwe ardal awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru (ONS, 2022).

Enw ardal	2021 - Adnabuwyd	2020 - Adnabuwyd	2019 - Adnabuwyd	2018 - Adnabuwyd	2017 - Adnabuwyd	2021 - Amcangyfrif	2020 - Amcangyfrif	2019 - Amcangyfrif	2018 - Amcangyfrif	2017 - Amcangyfrif
Conwy	0	0	0	0	1	0	0	0	0	1
Sir Ddinbych	1	0	2	0	0	2	0	3	0	0
Sir y Fflint	0	0	1	1	0	0	0	1	1	0
Gwynedd	0	1	1	0	0	0	1	1	0	0
Ynys Môn	0	2	0	2	0	0	3	0	3	0
Wrecsam	1	0	3	2	5	2	0	4	3	6


Tabl 14 - Oed cymedrig adeg marwolaeth ymhlith pobl ddigartref, Cymru a Lloegr, marwolaethau gofrestrwyd rhwng 2013 a 2021 (ONS, 2022).

Achos y farwolaeth	Oed	Rhyw	2021	2020	2019	2018	2017	2016	2015	2014	2013
Marwolaethau pobl ddigartref (adnabuwyd)	Rhwng 15 a 74 oed	Dynion	45.4	45.9	46.4	45.1	45.2	45.2	44.7	44.7	44.2
Marwolaethau pobl ddigartref (adnabuwyd)	Rhwng 15 a 74 oed	Merched	43.2	41.6	43.9	43.0	43.0	42.0	41.3	41.4	43.8
Holl achosion marwolaeth	Rhwng 15 a 74 oed	Dynion	61.9	62.3	62.0	61.9	62.1	61.8	61.8	61.7	61.7
Holl achosion marwolaeth	Rhwng 15 a 74 oed	Merched	62.9	63.1	62.9	62.9	62.9	62.7	62.6	62.5	62.5
Holl achosion marwolaeth	Pob oedran	Dynion	75.9	76.5	76.1	76.0	76.0	75.7	75.8	75.4	75.4
Holl achosion marwolaeth	Pob oedran	Merched	80.6	81.1	80.9	81.0	81.1	80.8	81.1	80.7	80.9

### Pobl Anabl


Nododd data o Gyfrifiad 2021 fod 142,230 o bobl anabl yng Ngogledd Cymru. Mae data ar gael sy'n dangos dadansoddiad o'r boblogaeth anabl fesul rhyw ac oedran fel y dangosir yn y ffigurau isod (Ffigur 62 a Ffigur 63).





Ffigur 62 – Poblogaeth anabl fesul rhyw yng Ngogledd Cymru a'r chwe ardal awdurdod lleol yn 2021 (ONS, 2023).


Roedd y rhan fwyaf o'r boblogaeth anabl yn 2021 yng Ngogledd Cymru yn ferched (78,005 o bobl neu 54.8%), mae hyn hefyd yn wir ym mhob un o'r chwe ardal awdurdod lleol.



Ffigur 63 – Poblogaeth anabl fesul grŵp oedran yng Ngogledd Cymru a'r chwe ardal awdurdod lleol yn 2021 (ONS, 2023).

Roedd y rhan fwyaf o'r boblogaeth anabl yn 2021 yng Ngogledd Cymru yn y grŵp oedran 45-69 (53,845 o bobl neu 37.9%), ac yna'r grŵp oedran 70+ (48,225 o bobl neu 33.9%). Gwelir patrwm tebyg yn y chwe ardal awdurdod lleol.

Roedd y Cyfrifiad hefyd yn cynnwys data yn nodi difrifoldeb hunangofnodedig anabledd (Ffigur 64).



Ffigur 64 – Poblogaeth anabl fesul cyfyngiad gweithgaredd yng Ngogledd Cymru a'r chwe ardal awdurdod lleol yn 2021 (ONS, 2023).

Yng Ngogledd Cymru, nododd mwy o bobl anabl fod eu gweithgareddau ychydig yn gyfyngedig (77,390 o bobl neu 54.4%) na wedi'u cyfyngu llawer (64,860 o bobl neu 45.6%). Nodwyd rhaniad tebyg ym mhob ardal awdurdod lleol.

#### Pobl trawsryweddol

Canfu ymchwil a wnaed gan [Stonewall yn 2017](#) fod 51% o'r bobl drawsryweddol a holwyd yng Nghymru yn nodi 'nad oedd gan staff gofal iechyd ddealltwriaeth o anghenion iechyd trawsryweddol penodol wrth ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd cyffredinol yn y flwyddyn ddiwethaf'. Roedd hyn yn uwch na'r 41% a nodwyd ym Mhrydain.

Ym Mhrydain nododd 7% o bobl drawsryweddol 'gwrthodwyd gofal iddynt oherwydd eu bod yn LHDT, wrth geisio cael mynediad at wasanaethau gofal iechyd yn y flwyddyn ddiwethaf'.

#### Sipsiwn a Theithwyr

Nododd ymchwil a gynhaliwyd gan yr [ONS yn 2022](#) ynghylch profiad byw cymunedau Sipsiwn a Theithwyr y canfyddiadau allweddol canlynol yn eu hymchwil ansodol; mae yna fregusrwydd i ganlyniadau iechyd negyddol yn y gymuned oherwydd oedi neu rwystrau wrth gael mynediad at

wasanaethau gofal iechyd, yn ogystal ag ystod o gyflyrau iechyd a nodwyd. Gallai unrhyw oedi cyn cael gofal iechyd ohirio diagnosis, triniaeth, sgrinio a gofal ataliol.

Roedd yna hefyd ddisgrifiadau o gyflyrau iechyd yr oedd cyfranogwyr yn teimlo eu bod yn gysylltiedig ag amodau amgylcheddol a pheryglon galwedigaethol. Ar ben hynny, i'r rhai heb gyfeiriad penodol, roedd heriau wrth gofrestru gyda Meddygfa. Hefyd, gall mynediad at ofal iechyd gael ei danseilio gan brofiadau o wahaniaethu canfyddedig ac agweddau difrifol gan ddarparwyr gofal iechyd.

### 7.2.3 Hunanladdiad

Gan ddefnyddio data gan yr ONS, gallwn weld nifer y marwolaethau a'r cyfraddau safonedig yn ôl oedran fesul 100,000 o'r boblogaeth ar gyfer ardaloedd awdurdodau lleol Gogledd Cymru fel ddangosir yn y tabl isod (Tabl 15).

*Tabl 15 - Nifer y marwolaethau o ganlyniad i hunanladdiad a chyfraddau hunanladdiad wedi'u safoni yn ôl oedran fesul 100,000 o'r boblogaeth ar gyfer chwe ardal awdurdod lleol Gogledd Cymru a Chymru. Cyfansymiau cronus tair-blynedd, marwolaethau cofrestredig 2015 i 2021 (ONS, 2022).*

Ardal	2019 i 2021		2018 i 2020		2017 i 2019		2016 i 2018		2015 i 2017	
	Nifer y marwol-aethau	Cyfradd fesul 100,000	Nifer y marwol-aethau	Cyfradd fesul 100,000	Nifer y marwol-aethau	Cyfradd fesul 100,000	Nifer y marwol-aethau	Cyfradd fesul 100,000	Nifer y marwol-aethau	Cyfradd fesul 100,000
Conwy	31	9.9	31	10.0	35	11.5	34	11.1	29	9.6
Sir Ddinbych	37	14.7	36	15.1	32	13.4	27	11.2	26	10.9
Sir y Fflint	38	9.5	47	11.7	56	14.1	48	11.9	42	10.3
Gwynedd	37	11.3	34	10.2	48	15.5	51	16.4	49	16.1
Ynys Môn	20	11.4	20	10.8	24	13.1	25	13.4	28	15.2
Wrecsam	53	14.9	47	13.3	45	12.7	38	10.8	35	9.9
<b>Cymru</b>	<b>962</b>	<b>11.7</b>	<b>964</b>	<b>11.8</b>	<b>1,039</b>	<b>12.7</b>	<b>1,031</b>	<b>12.6</b>	<b>1,032</b>	<b>12.7</b>

Mae'r tabl uchod yn nodi bod y cyfraddau hunanladdiad uchaf safonedig fesul oedran uchaf ymhlith chwe ardal awdurdod lleol Gogledd Cymru yn y data diweddaraf ar gyfer 2019-2021 yn Wrecsam (14.9 fesul 100,000) a Sir Ddinbych (14.7 fesul 100,000). Y cyfraddau isaf oedd Sir y Fflint (9.5 fesul 100,000) a Chonwy (9.9 fesul 100,000). Dylid nodi bod hyn yn amrywio yn ystod y gwahanol gyfnodau a nodir yn y tabl, ac yn 2017-2019, 2016-2018 a 2015-2017 roedd y gyfradd ar ei huchaf yng Ngwynedd ac roedd Wrecsam un ai yr isaf neu ymysg y cyfraddau isaf.

Roedd yr Adroddiad Cydraddoldeb Gogledd Cymru blaenorol yn cynnwys data cyfraddau hunanladdiad 2013-2017 a nododd fod y gyfradd uchaf ar y pryd yng Ngwynedd a'r isaf yng Nghonwy, er nad oes modd cymharu'r data yn uniongyrchol gan ei fod yn cwmpasu cyfnod amser gwahanol.

Cafodd data sy'n dadansoddi cyfraddau hunanladdiad fesul oedran a rhywedd yng Ngogledd Cymru ac ar lefel awdurdod lleol ei gynnwys yn adroddiad cydraddoldeb blaenorol Gogledd Cymru, ond ni fu'n bosibl dod o hyd i ddata wedi'i ddiweddarau yn dadansoddi hunanladdiad fesul nodweddion gwarchoddedig i'r lefel yma.

Nododd yr adroddiad diwethaf fod cyfradd hunanladdiad ar ei uchaf yn y grŵp oedran 35-54 yn 2011, ac yna'r grŵp oedran 55-74 ar draws Gogledd Cymru a phob ardal awdurdod lleol (er mai niferoedd bach ar lefel leol oedd y rhain). Roedd cyfradd hunanladdiad hefyd yn uwch ymhlith dynion na merched yn 2011, ar draws Gogledd Cymru ac ardaloedd yr awdurdod lleol i ryw raddau.

Er nad yw'r data hwn ar gael ar lefel Gogledd Cymru neu awdurdod lleol, mae yna ddata sy'n dadansoddi cyfradd hunanladdiad yn ôl oedran (gan ddefnyddio ystodau oedran gwahanol), rhywedd, ac amddifadedd ar lefel Cymru gyfan ([ONS, 2022](#)).

Mae'r data hwn ar gyfer Cymru rhwng 2017-2021 yn nodi bod cyfraddau hunanladdiad ar eu uchaf yn y grŵp oedran 45-64 (14.9 fesul 100,000) ac yna'r grŵp oedran 18-44 (14.8 fesul 100,000). Roedd y gyfradd ar ei hisaf yn y grŵp oedran 10-17 (1.7 fesul 100,000).

Dangosodd y dadansoddiad fesul rhywedd ar gyfer Cymru yn 2017-2021 fod cyfraddau llawer uwch ymhlith dynion na merched, gyda chyfraddau o 19 fesul 100,000 a 5.7 fesul 100,000 yn y drefn honno.

Wrth edrych ar gyfraddau hunanladdiad a ddadansoddwyd yn ôl amddifadedd yng Nghymru yn 2017-2021, nodwyd y gyfradd hunanladdiad uchaf yn y cwintel mwyaf difreintiedig (7.1 fesul 100,000) a'r isaf yn y cwintel lleiaf difreintiedig (3.9 fesul 100,000).


Yn ogystal, canfu ymchwil gan yr [ONS yn 2023](#) am anghydraddoldebau demograffig-gymdeithasol marwolaeth drwy hunanladdiad fod cyfraddau marw drwy hunanladdiad yn uwch ar gyfer pobl anabl na phobl nad ydynt yn anabl.

Wrth ddadansoddi fesul ethnigrwydd, canfu yr un ymchwil fod cyfraddau hunanladdiad amcangyfrifedig ar eu uchaf ymhlith grwpiau Gwyn a Chymysg/Ethnic lluosog a'r isaf yn y grŵp ethnig Arabaidd.

Yn anffodus, nid oedd data ar gael ar gyfer nodweddion gwarchoddedig eraill ar lefel Cymru neu leol.

#### 7.2.4 Disgwyliad Oes

Mae data ar gael gan y ONS sy'n nodi disgwyliad oes adeg geni ar lefel awdurdod lleol, fel y dangosir yn y ffigur isod (Ffigur 65). Mae'n bwysig nodi bod y data diweddaraf sydd ar gael ar gyfer y pwnc hwn yn dyddio o gyn y pandemig ac felly ni fydd yn adlewyrchu effaith Covid ar y pwnc hwn.




Ffigur 65 – Disgwyliad oes adeg geni i ddynion a merched yng Ngogledd Cymru a phob un o'r chwe ardal awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru ar gyfer 2018-20 ([ONS, 2021](#)).

Yn 2018-20, disgwyliad oes adeg geni yng Ngogledd Cymru oedd 82.3 ar gyfer merched a 78.8 ar gyfer dynion fel y dangosir yn y ffigur uchod. Mae disgwyliad oes merched yng Ngogledd Cymru wedi lleihau

ers adroddiad cydraddoldeb diwethaf Gogledd Cymru a oedd yn cynnwys data o 2014-16 (disgwyliad oes merched yn flaenorol oedd 82.6) tra bod disgwyliad oes dynion wedi aros yr un fath ar draws y rhanbarth.

Dengys dadansoddiad ar lefel awdurdod lleol bod y disgwyliad oes uchaf i ferched yn 2018-20 yng Nghonwy a Gwynedd (y ddau yn 83.1). Gwynedd hefyd oedd â'r disgwyliad oes benywaidd uchaf yn y data blaenorol o 2014-16, er bod hyn hefyd wedi gostwng o 83.6. Roedd y disgwyliad oes isaf i ferched fel y dangosir yn y ffigur uchod yn Sir Ddinbych (81.1), nododd y data blaenorol o 2014-16 fod y disgwyliad oes isaf i ferched yn Wrecsam (81.6). Roedd y disgwyliad oes uchaf i ddynion yn y data diweddaraf o 2018-20 yng Ngwynedd (79.5), tra yn y data o 2014-16 roedd yr uchaf yn Sir y Fflint (79.2). Mae'r disgwyliad oes isaf adeg genedigaeth yn y data diweddaraf yn Sir Ddinbych a Wrecsam (y ddau yn 78.3). Sir Ddinbych hefyd oedd â'r disgwyliad oes isaf i ddynion yn 2014-16 (77.5).


Mae hefyd yn bwysig edrych ar ddisgwyliad oes iach, a dangosir hyn yn y ffigur isod (Ffigur 66).



Ffigur 66 – Disgwyliad oes iach adeg genedigaeth i ddynion a merched yng Ngogledd Cymru a phob un o'r chwe ardal awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru ar gyfer 2018-20 ([ONS, 2021](#)).

Yn 2018-20, roedd disgwyliad oes iach adeg geni yng Ngogledd Cymru yn 65.2 ar gyfer merched a 63.9 ar gyfer dynion fel y dangosir yn y ffigur uchod. Wrth ddadansoddi'r data ar lefel awdurdod lleol, Gwynedd sydd â'r disgwyliad oes iach benywaidd uchaf adeg geni (68.1) tra bod Wrecsam â'r isaf (63.3). Roedd y disgwyliad oes iach gwrywaidd uchaf yng Ngwynedd hefyd (65.1), tra bod yr isaf yn Sir Ddinbych (63.3). Nid oedd y data hwn yn rhan o'r adroddiad cydraddoldeb blaenorol.


Mae data hefyd ar gael sy'n dangos disgwyliad oes heb anabledd adeg geni, a nodir hyn yn y ffigur isod (Ffigur 67).



Ffigur 67 – Disgwyliad oes heb anabledd adeg genedigaeth i ddynion a merched ym mhob un o'r chwe ardal awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru ar gyfer 2018-20 ([ONS, 2021](#)).

Mae dadansoddiad o ddisgwyliad oes heb anabledd ar lefel awdurdod lleol yn 2018-20 yn dangos mai merched oedd â'r disgwyliad uchaf mewn tair o'r ardaloedd lleol (Conwy, Sir Ddinbych a Gwynedd) ac ychydig yn uwch mewn un ardal leol arall – er bod hyn yn debyg iawn (Sir y Fflint). Roedd gan ddwy o'r ardaloedd awdurdod lleol ddisgwyliad uwch ar gyfer dynion (Wrecsam ac Ynys Môn).

Hefyd, mae data ychwanegol ar gael sy'n edrych ar flynyddoedd disgwyliad oes gyda chyflwr corfforol neu feddyliol cyfyngol hirdymor fesul ardal awdurdod lleol a rhywedd fel y dangosir isod (Ffigur 68).




Ffigur 68 - 68phob un o'r chwe ardal awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru ar gyfer 2018-20 ([ONS, 2021](#)).

Yn rhanbarth Gogledd Cymru a phob un o'r ardaloedd awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru, roedd disgwyl i ferched fyw am fwy o flynyddoedd gyda chyflwr corfforol neu feddyliol tymor hir cyfyngol yn


2018-20, fel yn achos y data blaenorol a gynhwyswyd yn adroddiad cydraddoldeb Gogledd Cymru. Yng Ngogledd Cymru yn 2018-20 roedd disgwyl i ferched fyw gyda chyflwr corfforol neu feddyliol tymor hir cyfyngol am 17.1 mlynedd, o'i gymharu â 14.9 ar gyfer dynion. Mae hyn wedi lleihau o'r data o 2014-16 lle nodwyd 20.9 mlynedd ar gyfer merched a 17 mlynedd ar gyfer dynion.

Ymhlith yr ardaloedd awdurdod lleol Gogledd Cymru yn 2018-20 roedd y nifer uchaf o flynyddoedd i ferched a dynion yn Ynys Môn (19.3 a 15.1 mlynedd yn y drefn honno) a'r byrraf yng Ngwynedd i ferched a dynion (15.0 a 14.4 blynedd yn y drefn honno). Dylid nodi, er bod merched yn byw'n hirach yn y rhanbarth, disgwylir y byddant hefyd yn byw gyda chyflwr corfforol neu feddyliol tymor hir cyfyngol am nifer hirach o flynyddoedd.

Mae data hefyd ar gael sy'n edrych ar y bwch mewn blynyddoedd rhwng y boblogaeth fwyaf difreintiedig a'r lleiaf difreintiedig yn 2018-20 fesul ardal leol a rhywedd ar gyfer disgwyliad oes adeg geni a disgwyliad oes iach adeg geni fel y dangosir yn y ffigurau isod (Ffigur 69 a Ffigur 70 yn y drefn honno). Ni chynhwyswyd hyn yn yr adroddiad cydraddoldeb blaenorol.



Ffigur 69 – Disgwyliad oes adeg geni a'r bwch mewn blynyddoedd rhwng y boblogaeth fwyaf difreintiedig a'r lleiaf difreintiedig ar gyfer dynion a merched yng Ngogledd Cymru a phob un o'r chwe ardal awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru ar gyfer 2018-20 (ONS, 2021).



Ffigur 70 – Disgwyliad oes iach adeg geni a'r bwlch mewn blynnyddoedd rhwng y boblogaeth fwyaf difreintiedig a'r lleiaf difreintiedig ar gyfer dynion a merched yng Ngogledd Cymru a phob un o'r chwe ardal awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru 2018-20 (ONS, 2021).

Yn 2018-20, roedd y bwlch mewn blynnyddoedd rhwng y boblogaeth fwyaf difreintiedig a lleiaf difreintiedig ar gyfer disgwyliad oes adeg geni a disgwyliad oes iach adeg geni yn uwch ar gyfer dynion na merched yn rhanbarth Gogledd Cymru. Roedd y bwlch mewn disgwyliad oes i ddynion yn 7.0 blynedd a merched yn 6.1 blynedd, tra roedd y bwlch disgwyliad oes iach yn 12.2 ar gyfer dynion a 10.9 i ferched.

Ni welir hyn ym mhob un o ardaloedd Gogledd Cymru. Wrth edrych ar y bwlch mewn disgwyliad oes adeg geni rhwng y boblogaeth fwyaf a lleiaf difreintiedig mae'r bwlch yn fwy i ddynion mewn pedwar o'r ardaloedd lleol (Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Gwynedd) gyda'r bwlch mwyaf i ddynion yn Sir Ddinbych (8.5 mlynedd). Mae'r bwlch yn fwy i ferched na dynion mewn dau o'r ardaloedd lleol (Ynys Môn a Wrecsam) gyda'r bwlch mwyaf i ferched i'w weld yn Wrecsam (7.3 mlynedd).

Wrth edrych ar y bwlch mewn disgwyliad oes iach adeg geni rhwng y boblogaeth fwyaf difreintiedig a'r lleiaf difreintiedig yn 2018-20, mae'r bwlch yn fwy i ddynion na merched mewn pum ardal awdurdod lleol (Conwy, Sir Ddinbych, Gwynedd, Ynys Môn a Wrecsam), gyda'r bylchau mwyaf ar gyfer dynion i'w gweld yng Nghonwy a Wrecsam (18.8 mlynedd ill dau). Mae'r bwlch disgwyliad oes iach ar gyfer merched yn uwch mewn un ardal leol (Sir y Fflint), gyda'r bwlch mwyaf i ferched hefyd i'w weld yn Sir y Fflint (14.4 mlynedd).


Yn anffodus, nid oedd data pellach ar gael yn edrych ar nodweddion gwarchoddedig eraill.

### 7.2.5 Diffyg Maeth

Fel nodwyd yn 'A yw Cymru'n Decach (2018)?' ac adroddiad cydraddoldeb blaenorol Gogledd Cymru, dim ond gwybodaeth gyfyngedig sydd ar gael am ddiffyg maeth yn gyffredinol ac ni chanfuwyd unrhyw ddata lleol pellach i ychwanegu at y drafodaeth honno.

Fodd bynnag, mae yna ddata wedi'i ddiweddarau am y cyfran o oedolion sy'n bwyta pum dogn o ffrwythau neu lysiau y dydd, fel y nodir isod (Ffigur 71). Mae ffynhonnell y data hwn wedi newid ac felly nid yw'n bosibl cymharu yn uniongyrchol.





Ffigur 71 Canran safonedig fesul oedran o oedolion (16+) yn bwyta pum dogn o ffrwythau neu lysiau y dydd yng Ngogledd Cymru a'r chwe ardal awdurdod lleol yn 2020-21 ([Llywodraeth Cymru, 2022](#)).


Mae'r data Arolwg Cenedlaethol Cymru a ddangosir yn y ffigur uchod yn amcangyfrif bod 31.7% o oedolion (16+) yng Ngogledd Cymru wedi bwyta pum dogn o ffrwythau neu lysiau y dydd yn 2020-21. Roedd y ganran uchaf ymysg ardaloedd awdurdod lleol Gogledd Cymru yn Sir Ddinbych (44.7%) a'r isaf yng Nghonwy (23.4%).

Nid yw dadansoddiad pellach fesul nodwedd warchoddedig yn bosibl wrth ddefnyddio'r data lleol hwn, fodd bynnag mae rhywfaint o ddata ar gael ar lefel Cymru gyfan. Yng Nghymru yn 2020-21, roedd 30.7% o oedolion yn bwyta pum dogn y dydd. Roedd mwy o ddynion na merched yn bwyta'r dognau hyn (32.2% o'i gymharu â 29.3%), ac roedd pobl anabl yn llai tebygol o fwyta pum dogn y dydd na phobl nad oeddent yn anabl (28.2% o'i gymharu â 32.1%). Wrth ddadansoddi gwahanol grwpiau oedran, y grŵp â'r ganran uchaf yn bwyta pum dogn oedd 16-44 (33%) a'r isaf oedd 85+ (21.3%), gyda gostyngiad ym mhob grŵp oedran wrth fynd i fyny'r oedrannau. Gwnaed dadansoddiad hefyd fesul amddifadedd, a'r pumed mwyaf difreintiedig oedd y lleiaf tebygol o fwyta'r dognau hyn (22%) a'r canol oedd fwyaf tebygol (35.1%). Er bod rhywfaint o fudd i asesu'r data hwn ar lefel Cymru gyfan, byddai'n fuddiol asesu a welir patrymau tebyg ar lefel fwy lleol.

Ni chanfuwyd unrhyw ddata wedi'i ddiweddarau yn edrych ar bwysau a diet iach mewn plant.

#### 7.2.6 Marwolaethau Babanod

Caiff marwolaethau babanod eu mesur yn ôl marwolaethau fesul 1,000 o enedigaethau byw babanod hyd at 1 oed, dangosir y data hwn ar gyfer Gogledd Cymru a'r ardaloedd awdurdod lleol yn y ffigur isod (Ffigur 72).




Ffigur 72 – Marwolaethau babanod fesul 1,000 o enedigaethau byw yng Ngogledd Cymru a'r chwe ardal awdurdod lleol yn 2019 (ONS, 2022).

Yn 2019 roedd y gyfradd ar gyfer Gogledd Cymru yn 3.3, mae hyn yn is na'r gyfradd a gynhwyswyd yn yr adroddiad cydraddoldeb Gogledd Cymru blaenorol sef 4.1 fesul 1,000 yn 2016. Mae'r data ar gyfer 2019 a ddangosir yn y ffigur uchod yn dangos bod yr ystod fesul ardal leol rhwng 2.9 a 4.1, gyda'r isaf yn Wrecsam a Sir y Fflint a'r uchaf yn Sir Ddinbych.

Nid yw'r data lleol hwn ar gael i'w ddadansoddi ymhellach fesul nodwedd warchoddedig, fodd bynnag mae data ar gyfer Cymru a Lloegr sy'n dangos marwolaethau babanod fesul grŵp ethnig. Yn 2019 y gyfradd ar gyfer pob grŵp ethnig oedd 3.7, fodd bynnag roedd hyn yn amrywio'n sylweddol rhwng gwahanol grwpiau ethnig o 2.9 fesul 1,000 i 8.4 fesul 1,000. Y cyfraddau isaf oedd Gwyn Arall (2.9) a Gwyn Prydeinig (3.1), tra bod y cyfraddau uchaf yn y grwpiau Du Caribiaidd (8.4) a Phacistani (7.0).

### 7.2.7 Pwysau Geni Isel

Dangosir data ar gyfer babanod gafodd eu geni â phwysau geni isel yng Ngogledd Cymru yn y ffigur isod (Ffigur 73).



Ffigur 73 - Canran â phwysau geni islaw 2,500g yn 2021 yng Ngogledd Cymru a'r chwe ardal awdurdod lleol (ONS, 2023)

Yn 2021, cafodd 6.8% o fabanod yng Ngogledd Cymru eu geni â phwysau geni isel, hynny yw is na 2,500g. Mae hyn yn uwch na'r ganran gynhwyswyd yn adroddiad cydraddoldeb blaenorol Gogledd Cymru lle cafodd 6.1% o fabanod yng Ngogledd Cymru eu geni â phwysau geni isel yn 2017.

Wrth ddadansoddi'r data o 2021 ar lefel awdurdod lleol, mae'r ganran ar ei hisaf yng Ngwynedd (4.8%) ac ar ei uchaf yn Wrecsam (8.0%). Dangosodd y data o 2017 a gynhwyswyd yn yr adroddiad cydraddoldeb blaenorol hefyd mai Wrecsam oedd â'r ganran uchaf yng Ngogledd Cymru, sef 7.0%.

## 7.3 Iechyd Meddwl

### 7.3.1 Poblogaeth yn adrodd Iechyd Meddwl a Llesiant Gwael

Roedd adroddiad cydraddoldeb blaenorol Gogledd Cymru yn cynnwys canran yr oedolion sy'n cael eu trin am unrhyw salwch meddwl fesul ardal awdurdod lleol. Yn anffodus, ni ellid dod o hyd i ddata wedi'i ddiweddarau, ac felly adnabuwyd ffynonellau data amgen.

Yn 2020-21, cafodd 1,183 o gleifion eu derbyn i gyfleusterau iechyd meddwl yn ardal BIP Betsi Cadwaladr, gyda 51.6% ohonynt yn ddynion a 48.4% yn ferched ([Llywodraeth Cymru, 2022](#)). I gymharu, yn 2016/17, derbyniwyd 1,262 claf i gyfleusterau iechyd meddwl yn ardal BIP Betsi Cadwaladr, 51.6% ohonynt yn ddynion a 48.4% yn ferched.

Mae data ar gael o'r cyfrifiad seiciatrig sy'n nodi data Cymru a BIPBC, ac fe ddangosir hwn yn y tablau isod (Tabl 16 ac 17).

Tabl 16 - Cleifion mewn ysbytai ac unedau iechyd meddwl yng Nghymru a BIPBC sydd ag anabledd dysgu ([Llywodraeth Cymru, 2019](#)).

Ardal	2015	2016	2017	2018	2019
Cymru	125	117	115	117	87
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	21	16	18	24	15

Mae nifer y cleifion mewn unedau iechyd meddwl yn BIPBC ag anabledd dysgu wedi amrywio rhwng 2015-2019. Yn 2019 roedd 86.7% (13 o'r 15 claf) yn ddynion.

Tabl 17 - Cleifion mewn ysbytai ac unedau iechyd meddwl yn BIPBC gydag afiechyd meddwl wedi'i ddadansoddi yn ôl oedran ([Llywodraeth Cymru, 2019](#)).

Grŵp oedran yn BIPBC	2015	2016	2017	2018	2019
Pob oedran	224	236	237	224	239
O dan 18 oed	8	14	10	5	9
18-44	89	96	95	93	91
45-64	54	46	54	52	58
65+	73	80	78	74	81

Yn 2019 roedd y rhan fwyaf o'r cleifion yn ysbytai ac unedau iechyd meddwl BIPBC ag afiechyd meddwl yn 18-44 oed (38.1%), ac yna 65+ oed (33.9%) a 45-64 oed (24.3%). Roedd y nifer isaf o gleifion o dan 18 oed (3.8%). Dangosodd y data cyfatebol ar gyfer Cymru batrwm tebyg gyda'r ganran uchaf rhwng 18-44 oed (37.9%), ac yna 65+ oed (35%) a 45-64 oed (25.2%). Roedd y nifer isaf o gleifion hefyd o dan 18 oed (1.9%).

### 7.3.2 Mynediad at, ac Ansawdd, Gwasanaethau Iechyd Meddwl

Nid oedd adroddiad cydraddoldeb blaenorol Gogledd Cymru yn cynnwys unrhyw ddata o dan y pennawd hwn, fodd bynnag canfuwyd data sy'n dangos llwybrau cleifion Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed Arbenigol (sCAMHS) sy'n aros am apwyntiad cyntaf fesul mis (Tabl 18).

Tabl 18 - Llwybrau cleifion sCAMHS sy'n aros am apwyntiad cyntaf fesul mis ac wythnosau wedi'u grwpio ar gyfer BIPBC yn dangos y nifer sy'n aros hyd at a thros 4 wythnos rhwng Tachwedd 2021 a Thachwedd 2022 ([Llywodraeth Cymru, 2023](#)).


Mis	Hyd at 4 wythnos	Dros 4 wythnos	Cyfanswm	Canran yn aros dros 4 wythnos
Tach 21	0	1	1	100.0%
Rhag 21	2	0	2	0.0%
Ion 22	9	0	9	0.0%
Chwe 22	6	5	11	45.5%
Maw 22	3	2	5	40.0%
Ebr 22	1	0	1	0.0%
Mai 22	1	1	2	50.0%
Meh 22	2	1	3	33.3%
Gor 22	1	0	1	0.0%
Awst 22	0	0	0	0.0%
Medi 22	2	0	2	0.0%
Hyd 22	1	1	2	50.0%
Tach 22	4	1	5	20.0%

### 7.3.3 Mynediad at Therapiau Seicolegol

Dim gwybodaeth leol benodol i'w hychwanegu at y drafodaeth yn 'A yw Cymru'n Decach (2018)?'.

### 7.3.4 Darpariaeth Iechyd Meddwl ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal

Nid oedd adroddiad cydraddoldeb blaenorol Gogledd Cymru yn cynnwys unrhyw ddata o dan y pennawd hwn, fodd bynnag mae data wedi'i ganfod a'i ddangos yn y ffigur isod (Ffigur 74).



Ffigur 74 - Canran y plant sy'n derbyn gofal a chymorth yng Ngogledd Cymru yr oedd gwybodaeth iechyd meddwl ar gael iddynt, adroddwyd afiechyd meddwl plant ar gyfer 17.6% ohonynt ar 31 Mawrth 2021 ([Llywodraeth Cymru, 2022](#)).

O blith y plant yn derbyn gofal a chymorth yng Ngogledd Cymru yr oedd gwybodaeth iechyd meddwl ar gael iddynt, adroddwyd afiechyd meddwl plant ar gyfer 17.6% ohonynt ar 31 Mawrth 2021. Yn yr ardaloedd awdurdod lleol roedd hyn yn amrywio o 12.1% yn Sir Ddinbych i 20.0% yng Ngwynedd.

### 7.3.5 Hunanladdiadau Defnyddwyr Gwasanaeth Iechyd Meddwl

Fel yn yr adroddiad blaenorol, yn methu canfod data lleol perthnasol i ategu'r drafodaeth yn 'A yw Cymru'n Decach (2018)?'.

### 7.3.6 Defnyddio Ataliad ar gyfer Defnyddwyr Gwasanaeth Iechyd Meddwl

Fel yn yr adroddiad blaenorol, yn methu canfod data lleol perthnasol i ategu'r drafodaeth yn 'A yw Cymru'n Decach (2018)?'.

### 7.3.7 Defnydd o'r Ddeddf Iechyd Meddwl a Thriniaeth Gymunedol dan Oruchwyliaeth

Fel yn yr adroddiad blaenorol, yn methu canfod data lleol perthnasol i ategu'r drafodaeth yn 'A yw Cymru'n Decach (2018)?'.

## 8. Cyfiawnder a Diogelwch Personol

### 8.1 Cyfiawnder Troseddol a Sifil: Hyder y Cyhoedd a Mynediad at Gyfiawnder

#### 8.1.1 Hyder y Cyhoedd yn y System Gyfiawnder

Yng Ngogledd Cymru yn 2019/20, dywedodd 59.5% o bobl 16+ oed fod yr heddlu'n gwneud gwaith ardderchog/da mewn ymateb i Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr ([ONS, 2020](#)). Mae hyn yn cymharu â 55.4% ledled Cymru, er bod yr ONS yn nodi y dylid trin amcangyfrifon ardal heddluoedd yn ofalus oherwydd maint sampl bach.

Mae'r ganran hon wedi gostwng ers adroddiad cydraddoldeb blaenorol Gogledd Cymru, lle yn 2018/19, cytunodd 65% o'r rhai a gyfwelwyd yng Ngogledd Cymru a 59.9% yng Nghymru gyfan.

Yn yr un arolwg yn 2019/20, roedd 59.5% o'r ymatebwyr yng Ngogledd Cymru yn cytuno bod yr heddlu'n delio â phryderon lleol, roedd y ganran yng Nghymru yn is (53.3%). Mae'r ganran hon hefyd wedi gostwng ers yr adroddiad blaenorol, lle yn 2018/19 roedd 63.4% o'r ymatebwyr yng Ngogledd Cymru yn cytuno a 59% yng Nghymru yn cytuno.

Yn ogystal, yn yr arolwg diweddaraf yn 2019/20, dywedodd 56.3% eu bod yn cytuno'n gryf / yn tueddu i gytuno bod yr heddlu a'r cyngor lleol yn delio â materion yng Ngogledd Cymru, o'i gymharu â 55.8% yng Nghymru. Unwaith eto, mae hyn wedi gostwng ers yr adroddiad blaenorol lle, yn 2018/19, roedd 62.5% o'r ymatebwyr yng Ngogledd Cymru yn cytuno/cytuno'n gryf a 62.9% yng Nghymru.

Nid oes data ar gael i ddadansoddi'r ymatebion fesul nodweddion gwarchoddedig ar lefel Gogledd Cymru.

#### 8.1.2 Mynediad i Lysoedd a Thribiwnlysoedd

Fel yn yr adroddiad blaenorol, yn methu canfod data lleol perthnasol i ategu'r drafodaeth yn 'A yw Cymru'n Decach (2018)?'.

#### 8.1.3 Darparu Cymorth Cyfreithiol


Fel yn yr adroddiad blaenorol, yn methu canfod data lleol perthnasol i ategu'r drafodaeth yn 'A yw Cymru'n Decach (2018)?'.

### 8.2 Trais a Cham-drin: Troseddau Casineb, Lladdiadau, a Cham-drin Rhywiol a Domestig

#### 8.2.1 Troseddau Casineb ac Aflonyddu ar Sail Rhagfarn

Cafodd 1,520 o droseddau eu cofnodi gan Heddlu Gogledd Cymru fel troseddau casineb yn 2021/22. Mae hyn yn gynydd o 123.2% ers adroddiad cydraddoldeb blaenorol Gogledd Cymru, lle cofnodwyd 681 o droseddau yn 2017/18.


Cofnodir troseddau casineb fesul pum math o drosedd, a dangosir nifer y troseddau fesul math a fonitryd yn 2021/22 isod (Ffigur 75).



Ffigur 75 – Nifer y troseddau casineb fesul math a fonitrwyd yng Ngogledd Cymru fel y'u cofnodwyd gan Heddlu Gogledd Cymru yn 2021/22 ([Swyddfa Gartref, 2022](#)). Mae cyfanswm y nifer ar draws pob math yn fwy nag un ffactor, gan fod rhai troseddau wedi'u priodoli i fwy nag un ffactor.

Mae'r ffigur hwn yn dangos, o'r troseddau casineb gofnodwyd yn 2021/22, bod 914 (58%) yn ymwneud â hil, 334 (21%) â chyfeiriadedd rhywiol, 248 (16%) ag anabledd, 50 (3%) â hunaniaeth drawsryweddol a 40 (3%) â chrefydd.

Mae'r ffigur isod (Ffigur 76) yn dangos dadansoddiad o droseddau casineb fesul math a fonitrwyd o 2016/17 i 2021/22.



Ffigur 76 – Nifer y troseddau casineb fesul math a fonitrwyd yng Ngogledd Cymru fel y'u cofnodwyd gan Heddlu Gogledd Cymru bob blwyddyn rhwng 2016/17 a 2021/22 ([Swyddfa Gartref, 2022](#)).

Mae'r ffigur hwn yn dangos cynnydd mewn troseddau casineb gofnodwyd rhwng 2016/17 a 2021/22, cynnydd o 578 (172%) yn ymwneud â hil, 271 (430%) â chyfeiriadedd rhywiol, 194 (359%) ag anabledd, 42 (525%) â hunaniaeth drawsryweddol a 24 (150%) â chrefydd.


Canfu ymchwil gan Stonewall yn 2017 a nodwyd yn [LGBT in Britain: Trans Report](#) nad yw'r mwyafrif o bobl draws yn adrodd achosion i'r heddlu, ac felly ei fod yn cael ei dan-adrodd. Felly, mae'r ffigurau troseddau casineb uchod yn annhebygol o ddangos yn llawn yr achosion troseddau casineb yng Ngogledd Cymru. Gallai ymchwil pellach fod yn fuddiol i asesu maint y tan-adrodd ar draws yr holl fathau o droseddau casineb gaiff eu monitro.

### 8.2.2 Lladdiadau

Roedd cyfradd lladdiadau Gogledd Cymru rhwng Ebrill 2019 a Mawrth 2022 yn 7.6 fesul miliwn o'r boblogaeth, y gyfradd isaf yng Nghymru. Cyfradd Cymru gyfan ar gyfer y cyfnod hwn oedd 9.7 fesul miliwn o'r boblogaeth. Oherwydd niferoedd bach nid oes modd dadansoddi'r data hwn fesul nodwedd warchoddedig.

### 8.2.3 Trais a Cham-drin Rhywiol

Cafodd 2,681 o droseddau rhyw eu cofnodi yng Ngogledd Cymru yn 2021/22, gyda chyfradd o 3.8 fesul 1,000 o'r boblogaeth. Mae hyn yn uwch na'r gyfradd ar gyfer Cymru sef 3.1 fesul 1,000. Dangosir y gyfradd ar gyfer Gogledd Cymru a Chymru o 2018/19 i 2021/22 yn y ffigur isod (Ffigur 77).



Ffigur 77 – Cyfradd y troseddau rhywiol a gofnodwyd fesul 1,000 o'r boblogaeth yn flynyddol yng Ngogledd Cymru a Chymru rhwng 2018/19 a 2021/22 (ONS, 2023).

Mae cyfradd y troseddau rhywiol a gofnodwyd wedi bod yn gyson uwch yng Ngogledd Cymru na Chymru rhwng 2018/19 a 2021/22. Gostyngodd cyfradd y troseddau a gofnodwyd yng Ngogledd Cymru a Chymru rhwng 2018/19 a 2020/21 cyn cynyddu yn 2021/22.

Mae'r data hwn yn annhebygol o adlewyrchu maint trosedd rhywiol yng Ngogledd Cymru fel mae'r ONS yn datgan yn [Trosolwg o Droseddau rhywiol yng Nghymru a Lloegr trosolwg: blwyddyn yn diweddu Mawrth 2022](#) bod llawer mwy o droseddau rhywiol yn cael eu cyflawni o'i gymharu â'r nifer gofnodir gan yr heddlu, gan fod troseddau o'r fath yn cael eu tan-adrodd i'r heddlu yng Nghymru a Lloegr.



Nid oes data ar gael ar lefel Gogledd Cymru yn dadansoddi'r data hwn fesul nodwedd warchoddedig. Fodd bynnag, mae rhywfaint o ddata ar gael ar lefel Cymru a Lloegr o 2019/20.


Yn y flwyddyn ddaeth i ben ym Mawrth 2020, dangosodd data troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu fod 84.5% o ddioddefwyr troseddau rhywiol yn ferched, gyda 90% o ddioddefwyr trais a gafodd eu cofnodi yn fenywod ac 81.2% o ddioddefwyr troseddau rhywiol eraill hefyd yn fenywod ([ONS, 2021](#)). Mae'r data hwn hefyd ar gael wedi'i ddadansoddi fesul oedran. Ar gyfer dioddefwyr benywaidd troseddau rhywiol a gofnodwyd yng Nghymru a Lloegr, roedd y ganran uchaf rhwng 10-14 oed (24.1%), 15-19 (21%) ac 20-24 (11.6%). Ar gyfer dioddefwyr gwrywaidd troseddau rhywiol a gofnodwyd yng Nghymru a Lloegr yn y flwyddyn cyn Mawrth 2020, roedd y ganran uchaf rhwng 10-14 oed (29.5%), 5-9 (18.9%) a 15-19 (14%).

#### 8.2.4 Trais a Cham-drin Domestig

Cofnodwyd 14,147 o droseddau yn ymwneud â cham-drin domestig gan Heddlu Gogledd Cymru yn y flwyddyn rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022, sef cyfradd o 20.6 trosedd yn ymwneud â cham-drin domestig fesul 1,000 o'r boblogaeth. Roedd hyn yn uwch na'r gyfradd ar gyfer Cymru sef 15.2 fesul 1,000. Ymhellach, roedd 20.9% o'r holl droseddau a adroddwyd yng Ngogledd Cymru yn gysylltiedig â cham-drin domestig tra ar draws Cymru roedd 17.6% yn gysylltiedig â cham-drin domestig.

Bu cynnydd yn nifer y troseddau cam-drin domestig gofnodwyd yng Ngogledd Cymru ers yr adroddiad cydraddoldeb blaenorol. Roedd data ar gyfer Ebrill 2017 - Mawrth 2018 yn cofnodi 9,449 achos a oedd yn cynrychioli 18.1% o achosion. Yng Nghymru yn y cyfnod yma roedd 15.1% yn gysylltiedig â cham-drin domestig.

Mae'r ffigur isod (Ffigur 78) yn dangos canran yr achosion a oedd yn gysylltiedig â cham-drin domestig yng Ngogledd Cymru a Chymru rhwng y cyfnodau hyn.



Ffigur 78flynnyddol a oedd yn gysylltiedig â cham-drin domestig yng Ngogledd Cymru a Chymru rhwng 2017/18 a 2021/22 ([ONS, 2022](#)).

Cofnodwyd 11,472 trosedd trais tuag at berson yn ymwneud â cham-drin domestig yng Ngogledd Cymru rhwng Ebrill 2021 – Mawrth 2022, cyfradd o 16.7 fesul 1,000 o'r boblogaeth. Mae hyn yn uwch na'r gyfradd ar gyfer Cymru sef 12.1 i bob 1,000 o'r boblogaeth. At hynny, roedd 35.3% o droseddau

trais yn gysylltiedig â cham-drin domestig yng Ngogledd Cymru, tra ar draws Cymru roedd 32.2% yn gysylltiedig â cham-drin domestig.

Mae nifer (ond nid canran) troseddau trais tuag at berson yn ymwneud â cham-drin domestig gofnodwyd wedi cynyddu yng Ngogledd Cymru ers yr adroddiad cydraddoldeb blaenorol. Roedd data ar gyfer Ebrill 2017 – Mawrth 2018 yn cofnodi 7,401 o achosion a oedd yn cynrychioli 37.8% o'r holl achosion o drais. Yng Nghymru yn y cyfnod yma roedd 35.6% yn gysylltiedig â cham-drin domestig.

Nid oes dadansoddiad o droseddau cam-drin domestig fesul nodweddion ar lefel leol, fodd bynnag yng Nghymru a Lloegr roedd 74.1% o'r dioddefwyr a gofnodwyd yn ferched a 25.9% o'r dioddefwyr a gofnodwyd yn ddynion yn y flwyddyn hyd at Mawrth 2022.

#### 8.2.5 Troseddau yn erbyn Plant

Dengys ystadegau arbrofol am gam-drin yn rhywiol / camfanteisio'n rhywiol ar blant fesul ardal heddlu ar gyfer Ebrill 2021 – Mawrth 2022 bod 1,991 o droseddau wedi'u nodi fel cam-drin rhywiol plant yng Ngogledd Cymru, gyda 18 trosedd yn cael eu nodi fel camfanteisio'n rhywiol ar blentyn ([ONS, 2023](#)).

Mae nifer y troseddau a nodir fel cam-drin plant yn rhywiol yng Ngogledd Cymru wedi cynyddu ychydig ers yr adroddiad cydraddoldeb blaenorol lle cafodd 1,929 o droseddau eu nodi yn 2018/19, ac mae nifer y troseddau a nodir fel camfanteisio'n rhywiol ar blant wedi gostwng o 85.

Mae angen defnyddio'r ystadegau hyn gyda gofal oherwydd eu statws arbrofol ac mae'n ymddangos bod yr arferion cofnodi/nodi yn dal i ddatblygu.

#### 8.2.6 Stelcian ac Aflonyddu

Canfuwyd data ychwanegol yn dadansoddi stelcian ac aflonyddu. Ni chynhwyswyd y pwnc hwn yn yr adroddiad cydraddoldeb blaenorol. Mae data troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben ym Mawrth 2022 yn dangos bod 13,340 o droseddau stelcian ac aflonyddu wedi'u cofnodi yng Ngogledd Cymru, cyfradd o 19.0 fesul 1,000 o'r boblogaeth. Mae hyn yn uwch na chyfradd Cymru gyfan sef 15.1 ([ONS, 2023](#)).

#### 8.2.7 Diogeled a Diogelwch Personol

Nodwyd trafodaeth ychwanegol am deimladau o ddiogeled a diogelwch personol yn yr [Adolygiad Tystiolaeth Gweithredu'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol](#) a gyhoeddwyd yn 2021. Daeth yr adolygiad hwn i'r casgliad, yn seiliedig ar ddata Arolwg Cenedlaethol Cymru o 2018-19, fod y bobl ganlynol yng Nghymru yn fwy tebygol o deimlo'n anniogel yn eu hardal leol:

- Merched (a oedd hefyd yn llawer llai tebygol o deimlo'n ddiogel ar ôl iddi dywyllu o gymharu â dynion)
- Pobl hŷn
- Pobl sy'n profi amddifadedd materol
- Pobl nad oeddent yn teimlo ymdeimlad o gydlyniant yn eu cymuned,

neu'n llai diogel yn eich cymuned:

- Pobl nad oeddent yn uniaethu fel heterorywiol.

## 8.3 Amodau cadw

### 8.3.1 Poblogaeth sy'n cael eu cadw yn y ddalfa

Yn 2020/21 roedd 82.3 derbyniad oedolyn ffurfiol (a gadwir o dan adran o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 neu ddeddfwriaeth arall) i gyfleusterau iechyd meddwl fesul 100,000 o'r boblogaeth yn BIPBC ([Llywodraeth Cymru, 2022](#)). Mae hyn wedi cynyddu o 65.6 fesul 100,000 yn 2016/17 fel nodwyd yn adroddiad cydraddoldeb blaenorol Gogledd Cymru.

Gellir dadansoddi'r data hwn fesul rhywedd, a'r cyfradd derbyniadau ffurfiol yn ardal BIPBC fesul 100,000 o'r boblogaeth ar gyfer dynion yw 89.8 a merched yw 75.3. Mae'r ddwy gyfradd wedi cynyddu o'r data o 2016/17 a gynhwyswyd yn yr adroddiad cydraddoldeb blaenorol lle'r oedd y gyfradd ar gyfer dynion yn 74.8 a merched yn 56.9.

Mae data ychwanegol wedi'i ganfod sy'n dangos nifer y plant a rybuddiwyd neu a ddedfrydwyd yng Ngogledd Cymru, a nodir hyn yn y tabl isod (Tabl 19).

Tabl 19 - Nifer y plant a rybuddiwyd neu a ddedfrydwyd yng Ngogledd Cymru, blynyddoedd yn diweddau Mawrth 2014 i 2020 ([Y Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid ar gyfer Cymru a Lloegr, 2021](#)).

Ardal	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20
Conwy a Sir Ddinbych	213	170	127	113	90	54	84
Sir y Fflint	108	91	58	52	48	53	54
Gwynedd a Môn	165	115	96	61	41	43	47
Wrecsam	176	147	125	102	61	40	32
<b>Gogledd Cymru</b>	<b>662</b>	<b>523</b>	<b>406</b>	<b>328</b>	<b>240</b>	<b>190</b>	<b>217</b>

Yn y data diweddaraf sydd ar gael o 2019/20, cafodd 217 o blant rybudd neu eu dedfrydu yng Ngogledd Cymru, gan gynnwys cyfanswm o 84 yng Nghonwy a Sir Ddinbych, 54 yn Sir y Fflint, cyfanswm o 47 yng Ngwynedd / Môn a 32 yn Wrecsam. Rhwng 2013/14 a 2018/19 cafwyd gostyngiad yn y cyfanswm ar draws Gogledd Cymru, gyda gostyngiadau parhaus i'w gweld ym mhob ardal lai ac eithrio Sir y Fflint a Gwynedd / Môn y cynyddodd eu ffigurau ychydig yn 2018/19. Roedd cynnydd yng nghyfanswm Gogledd Cymru rhwng 2018/19 a 2019/20 gyda chynnydd i'w weld yng Nghonwy a Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Gwynedd / Môn a gostyngiad yn Wrecsam yn y cyfnod yma.

Dangosir nifer y dedfrydau o garchariad a roddwyd i blant yng Ngogledd Cymru yn y tabl isod (Tabl 20).

Tabl 20 - Nifer y dedfrydau carchariad ieuencid yng Ngogledd Cymru, blynyddoedd yn diweddau Mawrth 2014 i 2020 ([Y Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid ar gyfer Cymru a Lloegr, 2021](#)).

Ardal	2013-14	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20
Conwy a Sir Ddinbych	7	4	6	5	7	6	4
Sir y Fflint	6	1	2	7	3	2	1
Gwynedd a Môn	4	1	2	5	0	2	4
Wrecsam	6	7	16	11	13	2	2
<b>Gogledd Cymru</b>	<b>23</b>	<b>13</b>	<b>26</b>	<b>28</b>	<b>23</b>	<b>12</b>	<b>11</b>

Yn y data diweddaraf sydd ar gael o 2019/20 yng Ngogledd Cymru rhoddwyd 11 dedfryd carchariad i blant. Mae hyn yn cynnwys cyfanswm o 4 yng Nghonwy a Sir Ddinbych, 4 yng Ngwynedd / Môn, 2 yn

Wrecsam ac 1 yn Sir y Fflint. Roedd hyn yn gyfanswm is ar gyfer Gogledd Cymru na'r cyfanswm a nodwyd yn yr adroddiad cydraddoldeb Gogledd Cymru blaenorol lle rhoddwyd 23 dedfryd carchariad i ieuencid yn 2017/18.

Mae data pellach wedi'i ganfod yn yr ystadegau cyfiawnder ieuencid yma ac fe'i nodir yn y tablau isod (Tabl 21 – 25).

Tabl 21 21 yn 2019/20 (*Y Weinyddiaeth Cyfiawnder a Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid ar gyfer Cymru a Lloegr, 2021*).

Ardal	Cyfanswm troseddau	Poblogaeth	Cyfradd fesul 10,000 o'r boblogaeth
Conwy a Sir Ddinbych	235	18,482	127.2
Sir y Fflint	100	14,729	67.9
Gwynedd a Môn	151	16,635	90.8
Wrecsam	80	12,863	62.2
<b>Gogledd Cymru</b>	<b>566</b>	<b>62,709</b>	<b>90.3</b>

Roedd cyfradd y troseddau fesul 10,000 o'r boblogaeth plant yn 90.3 yng Ngogledd Cymru, gyda'r gyfradd yn yr ardaloedd lleol yn amrywio o 62.2 yn Wrecsam i 127.2 yng Nghonwy a Sir Ddinbych.

Tabl 22 - Ystadegau cyfiawnder ieuencid yn dangos math o droseddau yn 2019/20 (*Bwrdd y Weinyddiaeth Cyfiawnder a Chyfiawnder Ieuencid ar gyfer Cymru a Lloegr, 2021*).

Ardal	Torri gorchymyn statudol	Bwrgleriaeth	Difrod Troseddol	Cyffuriau	Troseddau Moduro	Trefn gyhoeddus	Lladrad	Troseddau rhywiol	Dwyn a thrin nwyddau wedi'u dwyn	Trais yn erbyn y person	Arall	Cyfanswm Troseddau
Conwy a Sir Ddinbych	2.1%	6.8%	11.1%	9.4%	6.8%	12.8%	0.0%	4.3%	5.5%	24.3%	17.0%	235
Sir y Fflint	5.0%	1.0%	13.0%	8.0%	11.0%	14.0%	2.0%	2.0%	4.0%	39.0%	1.0%	100
Gwynedd a Môn	0.7%	11.3%	20.5%	2.6%	6.0%	20.5%	1.3%	1.3%	9.3%	21.2%	5.3%	151
Wrecsam	6.3%	18.8%	11.3%	3.8%	7.5%	7.5%	1.3%	2.5%	11.3%	28.8%	1.3%	80
<b>Gogledd Cymru</b>	<b>2.8%</b>	<b>8.7%</b>	<b>14.0%</b>	<b>6.5%</b>	<b>7.4%</b>	<b>14.3%</b>	<b>0.9%</b>	<b>2.8%</b>	<b>7.1%</b>	<b>26.7%</b>	<b>8.8%</b>	<b>566</b>

Y math mwyaf cyffredin o drosedd gan blentyn yng Ngogledd Cymru oedd 'trais yn erbyn y person' (26.7%), ac mae hyn yn gyson ym mhob ardal leol.

Tabl 23 - Ystadegau cyfiawnder ieuencid yn dangos oedran troseddwr yn 2019/20 (*Y Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid ar gyfer Cymru a Lloegr, 2021*).

Ardal	Oedran 10-14	Oedran 15-17	Nifer cyfanswm
Conwy a Sir Ddinbych	26.2%	73.8%	84
Sir y Fflint	38.9%	61.1%	54
Gwynedd a Môn	23.4%	76.6%	47
Wrecsam	21.9%	78.1%	32
<b>Gogledd Cymru</b>	<b>28.1%</b>	<b>71.9%</b>	<b>217</b>

Yng Ngogledd Cymru, roedd mwyafrif y plant oedd yn troseddu rhwng 15 ac 17 oed (71.9%), mae hyn yn gyson ym mhob ardal leol.

Tabl 24 - Ystadegau cyfiawnder ieuencid yn dangos canran y troseddwr oedd yn fechgyn a merched yn 2019/20 ([Y Weinyddiaeth Cyfiawnder a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid ar gyfer Cymru a Lloegr, 2021](#)).

Ardal	Bechgyn	Genethod	Cyfanswm
Conwy a Sir Ddinbych	79.8%	20.2%	84
Sir y Fflint	81.5%	18.5%	54
Gwynedd / Môn	85.1%	14.9%	47
Wrecsam	81.3%	18.8%	32
<b>Gogledd Cymru</b>	<b>81.6%</b>	<b>18.4%</b>	<b>217</b>

Roedd mwyafrif y plant oedd yn troseddu yng Ngogledd Cymru yn fechgyn (81.6%), ac mae hyn yn gyson ym mhob ardal leol.

Tabl 25 - Ystadegau cyfiawnder ieuencid yn dangos troseddwr fesul grŵp ethnig yn 2019/20 ([Y Weinyddiaeth Cyfiawnder a Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid ar gyfer Cymru a Lloegr, 2021](#)).

Ardal	Asiaidd	Du	Cymysg	Anhysbys	Gwyn	Cyfanswm
Conwy a Sir Ddinbych	0.0%	1.2%	3.6%	0.0%	95.2%	84
Sir y Fflint	0.0%	0.0%	3.7%	1.9%	94.4%	54
Gwynedd a Môn	2.1%	2.1%	2.1%	2.1%	91.5%	47
Wrecsam	0.0%	0.0%	3.1%	6.3%	90.6%	32
<b>Gogledd Cymru</b>	<b>0.5%</b>	<b>0.9%</b>	<b>3.2%</b>	<b>1.8%</b>	<b>93.5%</b>	<b>217</b>

Yng Ngogledd Cymru, roedd y mwyafrif o blant oedd yn troseddu yn Wyn (93.5%), roedd hyn yn gyson ym mhob ardal leol.

### 8.3.2 Gorlenwi ac Amodau cadw

Mae'r data diweddaraf o Fehefin 2022 ar gyfer yr unig garchar yng Ngogledd Cymru (CEF Berwyn) yn dangos ei fod yn agos at ei gapasiti gweithredol llawn, gyda 1,864 o garcharorion o'i gymharu â 1,875 o gapasiti (99.4%) ([Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2023](#)).

Mae'r dadansoddiad isod yn nodi'r dadansoddiad oedran ar gyfer poblogaeth CEF Berwyn (Tabl 26).

Tabl 26 – Dadansoddiad oedran carcharorion CEF Berwyn ym Mehefin 2022 ([Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2023](#)).

Oed	Nifer	Canran
18 - 20	42	2.3%
21 - 24	194	10.4%
25 - 29	373	20.0%
30 - 39	679	36.4%
40 - 49	363	19.5%
50 - 59	161	8.6%
60 - 69	39	2.1%
70 a throsodd	13	0.7%
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,864</b>	<b>100%</b>

Roedd y ganran uchaf o garcharorion ym Mehefin 2022 yn yr oedrannau 30-39 (36.4%), 25-29 (20.0%) a 40-49 (19.5%).

Mae data hefyd ar gael o Fehefin 2022 sy'n nodi cenedligrwydd y boblogaeth carcharorion yn CEF Berwyn fel y nodir yn y tabl isod (Tabl 27).

Tabl 27– Cenedligrwydd carcharorion CEF Berwyn ym Mehefin 2022 ([Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2023](#)).

Cenedligrwydd	Nifer	Canran
Dinesydd Prydeinig	1,808	97.0%
Dinesydd Tramor	55	3.0%
Heb ei Gofnodi	1	0.1%
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,864</b>	

Mae'r data uchod yn dangos bod y mwyafrif helaeth (97.0%) o garcharorion CEF Berwyn ym Mehefin 2022 yn ddinasyddion Prydeinig.

Mae data sy'n nodi ethnigrwydd carcharorion CEF Berwyn hefyd ar gael ac fe'i nodir yn y tabl isod (Tabl 28).

Tabl 28– Ethnigrwydd carcharorion CEF Berwyn ym Mehefin 2022 ([Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2023](#)).

Ethnigrwydd	Nifer	Canran
Asiaidd / Asiaidd Prydeinig	78	4.2%
Du / Affricanaidd / Caribiaidd / Du Prydeinig	49	2.6%
Grwpiau ethnig Cymysg / Lluosog	44	2.4%
Grŵp ethnig arall	7	0.4%
Gwyn	1,675	89.9%
Heb ei ddatgan	9	0.5%
Heb ei gofnodi	2	0.1%
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,864</b>	

Dengys y data hwn bod y mwyafrif (89.9%) o garcharorion CEF Berwyn ym Mehefin 2022 yn Wym.

### 8.3.3 Marwolaethau Annaturiol

Fel yn yr adroddiad blaenorol, yn methu canfod data lleol perthnasol i ategu'r drafodaeth yn 'A yw Cymru'n Decach (2018)?'.

### 8.3.4 Diogelwch y rhai sy'n cael eu cadw

Roedd yr adroddiad blaenorol Cydraddoldeb Gogledd Cymru yn cynnwys data am hunan-niweidio ac ymosodiadau yn CEF Berwyn. Ni ellid canfod data wedi'i ddiweddarau, fodd bynnag canfu astudiaeth gan yr ONS yn dadansoddi marwolaethau cysylltiedig â chyffuriau a hunanladdiad yn y ddalfa yng Nghymru a Lloegr rhwng 2008 a 2019 fod risg carcharorion gwrywaidd o farw drwy hunanladdiad 3.9 gwaith yn uwch na'r boblogaeth wrywaidd yn gyffredinol yn y cyfnod hwn ([ONS, 2023](#)).

## 8.3.5 Defnyddio Grym ac Atal

Rhwng Ebrill 2021 – Mawrth 2022 defnyddiodd Heddlu Gogledd Cymru Ddyfeisiau Ynni Dargludedig (CEDs) neu 'Tazers' 406 o weithiau, ac o'r rhain cafodd y ddyfais ei thanio 34 gwaith. Mae hyn wedi cynyddu ers y data ddefnyddiwyd yn adroddiad cydraddoldeb blaenorol Gogledd Cymru, lle cawsant eu defnyddio gan Heddlu Gogledd Cymru 134 gwaith a'u rhyddhau 12 gwaith yn 2017.

Mae'r tablau canlynol yn dangos dadansoddiad fesul rhywedd (Tabl 29), oedran (Tabl 30), ethnigrwydd (Tabl 31) a statws iechyd meddwl (Tabl 32). Ni chafodd y data hwn ei gynnwys yn adroddiad cydraddoldeb blaenorol Gogledd Cymru.

Tabl 29 Dadansoddiad o'r nifer defnydd CEDs gan Heddlu Gogledd Cymru yn Ebrill 2021 – Mawrth 2022 fesul rhywedd (Swyddfa Gartref, 2022).

Defnydd	Benyw	Gwryw	Cyfanswm
Anelwyd	5	40	45
Arciwyd	1	9	10
Tynnwyd	14	79	93
'Drive Stun'	0	1	1
Taniwyd	2	32	34
'Red Dot'	19	204	223
<b>Cyfanswm</b>	<b>41</b>	<b>365</b>	<b>406</b>

Tabl 30 - Dadansoddiad o'r nifer defnydd CEDs gan Heddlu Gogledd Cymru yn Ebrill 2021 – Mawrth 2022 fesul oedran (Swyddfa Gartref, 2022).

Defnydd	11 - 17	18 - 34	35 - 49	50 - 64	65 a throsodd	Heb ei ddatgan
Anelwyd	4	32	8	1	0	0
Arciwyd	0	6	2	1	1	0
Tynnwyd	9	44	32	8	0	0
'Drive Stun'	0	0	1	0	0	0
Taniwyd	0	13	19	1	0	1
'Red Dot'	10	142	61	10	0	0
<b>Cyfanswm</b>	<b>23</b>	<b>237</b>	<b>123</b>	<b>21</b>	<b>1</b>	<b>1</b>

Tabl 31 Dadansoddiad o'r nifer defnydd CEDs gan Heddlu Gogledd Cymru yn Ebrill 2021 – Mawrth 2022 fesul ethnigrwydd (Swyddfa Gartref, 2022).

Defnydd	Asiaidd	Du	Gwyn	Heb ei ddatgan
Anelwyd	0	3	41	1
Arciwyd	0	0	10	0
Tynnwyd	0	1	91	1
'Drive Stun'	0	0	1	0
Taniwyd	0	0	32	2
'Red Dot'	1	3	210	9
<b>Cyfanswm</b>	<b>1</b>	<b>7</b>	<b>385</b>	<b>13</b>

Tabl 32 Dadansoddiad o'r nifer defnydd CEDs gan Heddlu Gogledd Cymru yn Ebrill 2021 – Mawrth 2022 fesul statws iechyd meddwl ([Swyddfa Gartref, 2022](#)).

Defnydd	Dim cyflwr iechyd meddwl	Gyda chyflwr iechyd meddwl
Anelwyd	37	8
Arciwyd	7	3
Tynnwyd	73	20
'Drive Stun'	0	1
Taniwyd	29	5
'Red Dot'	180	43
<b>Cyfanswm</b>	<b>326</b>	<b>80</b>

Mae hefyd yn bosibl dadansoddi data defnydd CEDs i ddangos a gafodd yr unigolyn ei anafu drwy rym (Tabl 33).

Tabl 33 Dadansoddiad o'r defnydd CEDs gan Heddlu Gogledd Cymru yn Ebrill 2021 – Mawrth 2022 yn dangos a gafodd person ei anafu drwy rym ([Swyddfa Gartref, 2022](#)).

Statws Anafiadau	Anelwyd	Arciwyd	Tynnwyd	'Drive Stun'	Taniwyd	'Red Dot'	Cyfanswm
Heb eu hanafu	41	9	84	0	18	212	<b>364</b>
Anhysbys	2	0	5	0	8	5	<b>20</b>
Wedi'u hanafu	2	1	4	1	8	6	<b>22</b>



## 9. Cyfranogiad

### 9.1 Pleidleisio a Chyfranogiad a Chynrychiolaeth Ddinesig

#### 9.1.1 Pleidleisio

Mae data ar gael o'r etholiad lleol a gynhaliwyd yng Nghymru fis Mai 2022 sy'n dangos y canran a bleidleisiodd ar gyfer pob un o'r chwe ardal awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru yn ogystal â'r ffigur ar gyfer Cymru. Nodir hyn yn y tabl isod (Tabl 34) ac mae'n ddata ychwanegol na chafodd ei gynnwys yn yr adroddiad cydraddoldeb blaenorol ar gyfer Gogledd Cymru.

Tabl 34 – Etholiad Lleol Cymru Mai 2022 etholwyr a nifer y pleidleiswyr ar gyfer pob un o'r chwe ardal awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru ac ar lefel Cymru gyfan ([Y Comisiwn Etholiadol, 2022](#)).

Etholiad Lleol Cymru Mai 2022	Etholwyr a'r nifer bleidleisiodd			Pleidleisiau diwrthwynebiad a chyflwynedig
Awdurdod Lleol	Etholwyr	Pleidleisiau yn y cyfrif	Y ganran a bleidleisiodd	Cyfran yr etholwyr mewn wardiau diwrthwynebiad
Conwy	90,477	37,163	41.1%	0%
Sir Ddinbych	39,694	14,109	35.5%	3%
Sir y Fflint	118,824	42,450	35.7%	3%
Gwynedd	55,099	24,302	44.1%	37%
Ynys Môn	54,614	23,806	43.6%	0%
Wrecsam	87,304	32,050	36.7%	14%
<b>Cyfanswm Cymru 2022</b>	<b>2,244,814</b>	<b>868,750</b>	<b>38.7%</b>	<b>6%</b>

Roedd y nifer a bleidleisiodd yn rhanbarth Gogledd Cymru yn amrywio o 35.5% (Cyngor Sir Ddinbych) i 44.1% (Cyngor Gwynedd). Mae hyn o'i gymharu â 38.0% ar gyfer Cymru. Mae'r gyfran bleidleisiodd yng Nghymru wedi gostwng o 2017 lle'r oedd yn 42.0%.

#### 9.1.2 Cyfranogiad Gwleidyddol a Rhyddid Mynegiant, Ymgynnull ac Ymgysylltu; Undebau Llafur, Deddfwriaeth ac Aelodaeth

Fel yn yr adroddiad blaenorol, yn methu canfod data lleol perthnasol i ategu'r drafodaeth yn 'A yw Cymru'n Decach (2018)?'.

#### 9.1.3 Cyfranogiad Dinesig, gan gynnwys Penodiadau Cyhoeddus a Gwirfoddoli; Y gallu i Ddylanwadu ar Benderfyniadau yn yr Ardal Leol

Roedd adroddiad cydraddoldeb blaenorol Gogledd Cymru yn cynnwys data yn dadansoddi aelodau etholedig fesul rhywedd, yn anffodus ni ellid canfod data wedi'i ddiweddarau. Fodd bynnag, mae [Adroddiad Cyflwr y Genedl Chwarae Teg \(2023\)](#) yn cynnwys data ar gyfer Cymru sy'n nodi cynrychiolaeth benywaidd yng ngwleidyddiaeth Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn nodi bod 43% o AoS Cymru yn ferched, 36% o gynghorwyr yn ferched a 35% o ASau Cymru yn ferched. Mae hefyd yn nodi bod 23% o Brif Weithredwyr Cyngorau yn ferched a 18% o Arweinwyr Cyngorau yn ferched.

Nododd [Cynllun Gweithredu Cymru Gwrth-hiliol](#) Llywodraeth Cymru o 2022 fod 5% o'r Aelodau (3 aelod i gyd) etholwyd yn etholiadau'r Senedd 2021 o gefndir ethnig lleiafrifol.

Mae data Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gael ynghylch maes cyfranogiad dinesig a'r gallu i ddylanwadu ar benderfyniadau yn yr ardal leol, fel y dangosir yn y tablau isod (Tabl 35 i 38). Dyma ddata ychwanegol na chafodd ei gynnwys yn yr adroddiad cydraddoldeb Gogledd Cymru blaenorol. Mae cyfyngiadau ar y data hwn gan gynnwys maint sampl cyfyngedig ac yn anffodus oherwydd maint sampl isel nid yw'n bosibl dadansoddi'r data hwn fesul nodweddion gwarchoddedig.

Tabl 35 – Cyfle i gymryd rhan mewn penderfyniadau awdurdodau lleol (canran) ar gyfer pob un o'r chwe ardal awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru ar gyfer 2021/22 ([Llywodraeth Cymru, 2022](#)).

Ardal	Cytuno'n gryf	Yn tueddu i gytuno	Ddim yn cytuno nag anghytuno	Yn tueddu i anghytuno	Anghytuno'n gryf
Conwy	-	31	16	33	16
Sir Ddinbych	-	32	19	25	18
Sir y Fflint	-	24	22	28	22
Gwynedd	-	37	21	22	17
Ynys Môn	-	23	15	38	17
Wrecsam	-	29	21	23	21

Mae'r data hwn yn dangos bod amrywiaeth ar draws yr ardaloedd awdurdod lleol o ran a oedd y mwyafrif o'r rhai holwyd yn tueddu i gytuno neu anghytuno bod ganddynt y cyfle i gymryd rhan mewn penderfyniadau awdurdodau lleol. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai holwyd yn Ynys Môn, Conwy a Sir y Fflint yn tueddu i anghytuno tra bod y mwyafrif yng Ngwynedd, Sir Ddinbych a Wrecsam yn tueddu i gytuno. Fodd bynnag, ym mhob ardal awdurdod lleol roedd cyfanswm y rhai oedd naill ai'n tueddu i anghytuno neu anghytuno'n gryf yn uwch na'r cyfanswm oedd yn tueddu i gytuno.

Tabl 36 – Cysylltwyd â chynghorydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (canran) ar gyfer pob un o'r chwe ardal awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru ar gyfer 2021/22 ([Llywodraeth Cymru, 2022](#)).

Ardal	Do	Na
Conwy	12	88
Sir Ddinbych	12	88
Sir y Fflint	13	87
Gwynedd	16	84
Ynys Môn	24	76
Wrecsam	18	82

Mae'r data hwn yn dangos nad oedd mwyafrif y rhai a holwyd wedi cysylltu â chynghorydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gyda'r gyfran uchaf oedd wedi cysylltu yn Ynys Môn (24%) a'r isaf yng Nghonwy a Sir Ddinbych (12% ill dau).

Tabl 37 – P'un a yw'r cynghorydd yn gweithio'n agos gyda'r gymuned leol (canran) ar gyfer pob un o'r chwe ardal awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru ar gyfer 2021/22 ([Llywodraeth Cymru, 2022](#)).

Ardal	Cytuno'n gryf	Yn tueddu i gytuno	Ddim yn cytuno nag anghytuno	Yn tueddu i anghytuno	Anghytuno'n gryf
Conwy	21	25	22	18	14
Sir Ddinbych	23	27	13	20	18
Sir y Fflint	13	26	23	16	22
Gwynedd	22	27	22	19	9
Ynys Môn	17	28	17	25	14
Wrecsam	23	25	24	14	13

Mae'r tabl uchod yn nodi mai 'Tueddu i Gytuno' ddewiswyd amlaf gan y rhai a arolygwyd ym mhob un o'r chwe ardal awdurdod lleol pan ofynnwyd a yw'r cynghorydd yn gweithio'n agos gyda'r gymuned leol.

Tabl 38 – P'un ai ydych yn deall beth mae cynghorydd yn ei wneud (canran) ar gyfer pob un o'r chwe ardal awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru ar gyfer 2021/22 ([Llywodraeth Cymru, 2022](#)).

Ardal	Cytuno'n gryf	Yn tueddu i gytuno	Ddim yn cytuno nag anghytuno	Yn tueddu i anghytuno	Anghytuno'n gryf
Conwy	16	32	11	25	16
Sir Ddinbych	22	28	10	18	22
Sir y Fflint	14	26	14	21	26
Gwynedd	22	31	13	22	12
Ynys Môn	17	26	14	31	12
Wrecsam	19	27	13	19	21

Mae'r tabl uchod yn nodi bod y gyfran uchaf o'r rhai a holwyd mewn pump o'r chwe ardal awdurdod lleol wedi dewis 'Tueddu i Gytuno' pan ofynnwyd iddynt a ydynt yn deall beth mae cynghorydd yn ei wneud. Fodd bynnag, dewisodd y gyfran uchaf yn Ynys Môn 'Tueddu i Anghytuno'.

## 9.2 Mynediad at Wasanaethau

### 9.2.0 Mynediad at Wasanaethau

Daethpwyd o hyd i ddata ychwanegol ynglŷn â mynediad at wasanaethau ar lefel awdurdod lleol na chafodd ei gynnwys yn yr adroddiad blaenorol. Nodir y data hwn o Arolwg Cenedlaethol Cymru yn y tablau isod (Tabl 39 a 40).

Tabl 39 – Boddhad â'r gallu i gyrraedd gwasanaethau lleol (canran) ar gyfer pob un o'r chwe ardal awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru ar gyfer 2021/22 ([Llywodraeth Cymru, 2022](#)).

Ardal	Bodlon iawn	Yn weddol fodlon	Ddim yn fodlon nac yn anfodlon	Yn weddol anfodlon	Anfodlon iawn
Conwy	52	35	-	-	-
Sir Ddinbych	61	26	-	-	-
Sir y Fflint	49	35	-	6	-
Gwynedd	54	37	-	-	-
Ynys Môn	29	48	-	14	-
Wrecsam	42	39	9	-	-

Mae'r tabl uchod yn nodi bod mwyafrif y rhai a arolygwyd yn 'Fodlon iawn' gyda'u gallu i gyrraedd gwasanaethau lleol mewn pump o'r chwe ardal awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru (Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam), ond yn Ynys Môn roedd y mwyafrif yn 'Weddol fodlon'.


Tabl 40 – Boddhad ag argaeledd gwasanaethau (canran) ar gyfer pob un o'r chwe ardal awdurdod leol yng Ngogledd Cymru ar gyfer 2021/22 ([Llywodraeth Cymru, 2022](#)).

Ardal	Bodlon iawn	Yn weddol fodlon	Ddim yn fodlon nac yn anfodlon	Yn weddol anfodlon	Anfodlon iawn
Conwy	35	48	-	-	-
Sir Ddinbych	40	39	-	-	-
Sir y Fflint	26	43	10	13	6
Gwynedd	32	33	7	10	-
Ynys Môn	23	43	-	18	-
Wrecsam	22	47	6	15	7

Mae'r tabl uchod yn nodi bod mwyafrif y rhai a arolygwyd yn 'Weddol fodlon' gydag argaeledd gwasanaethau mewn pump o'r chwe ardal awdurdod leol yng Ngogledd Cymru (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir y Fflint, Wrecsam), ond yn Sir Ddinbych mae'r mwyafrif yn 'Fodlon iawn'.


### 9.2.1 Mynediad i Drafnidiaeth

Gan ddefnyddio data Cyfrifiad 2021, gellir dadansoddi argaeledd ceir a faniau fel y dangosir isod (Ffigwr 79).




Ffigwr 79 Canran o'r boblogaeth sy'n byw ar aelwydydd heb fynediad i gar neu fan yn ardaloedd awdurdodau lleol a Gogledd Cymru – Cyfrifiad 2021 ([ONS, 2023](#)).

12.5% yw'r ganran o'r boblogaeth sy'n byw ar aelwydydd heb fynediad i gar neu fan yng Ngogledd Cymru. Yn yr ardaloedd awdurdod lleol mae hyn yn amrywio o 10.3% (Sir y Fflint) i 14.2% (Wrecsam). Gellir dadansoddi'r data hwn ymhellach fel y dangosir yn y ffigurau isod.




Ffigur 80 - Canran o'r boblogaeth sy'n byw ar aelwydydd heb fynediad at gar neu fan yn ardaloedd awdurdodau lleol a Gogledd Cymru yn ôl statws anabledd – Cyfrifiad 2021 (ONS, 2023).

Mae'r ganran sy'n byw ar aelwydydd heb fynediad i gar neu fan yng Ngogledd Cymru yn uwch i bobl anabl (23.0%) na phobl nad ydynt yn anabl (9.8%). Mae hyn yn gyson ym mhob ardal awdurdod lleol.




Ffigur 81 - Canran o'r boblogaeth sy'n byw ar aelwydydd heb fynediad at gar neu fan yn ardaloedd awdurdodau lleol a Gogledd Cymru yn ôl grŵp ethnig – Cyfrifiad 2021 (ONS, 2023).

Mae'r ganran sy'n byw ar aelwydydd heb fynediad i gar neu fan yng Ngogledd Cymru fesul grŵp ethnig ar ei uchaf ar gyfer pobl Ddu, Du Prydeinig, Du Cymreig, Caribiaidd neu Affricanaidd (27.1%) a'r isaf ar gyfer Gwyn (12.3%).



Ffigwr 82 - Canran o'r boblogaeth sy'n byw mewn cartrefi heb fynediad at gar neu fan yn ardaloedd awdurdodau lleol a Gogledd Cymru yn ôl iechyd cyffredinol – Cyfrifiad 2021 (ONS, 2023).

Mae'r ganran sy'n byw mewn cartrefi heb fynediad i gar neu fan yng Ngogledd Cymru fesul statws iechyd ar ei uchaf i'r rhai sydd mewn iechyd gwael neu wael iawn (29.8%), ac ar ei isaf i'r rhai sydd mewn iechyd da iawn neu iechyd da (9.5%). Mae hyn yn gyson ym mhob ardal awdurdod lleol.



Ffigwr 83 - Canran o'r boblogaeth sy'n byw ar aelwydydd heb fynediad at gar neu fan yn ardaloedd awdurdodau lleol a Gogledd Cymru yn ôl oedran – Cyfrifiad 2021 (ONS, 2023).

Mae'r ganran uchaf sy'n byw ar aelwydydd heb fynediad i gar neu fan yng Ngogledd Cymru fesul oedran yn y grŵp oedran 65 a hŷn (17.6%), a'r isaf yn y grŵp oedran 50 i 64 (8.9%). Mae hyn yn gyson ym mhob ardal awdurdod lleol ac eithrio Sir y Fflint lle mae'r rhai rhwng 35 a 49 oed a 50 i 64 oed yr un mor isel.

### 9.2.2 Mynediad at Wasanaethau Digidol

Mae data o Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gael ar gyfer pob un o'r ardaloedd awdurdod lleol sy'n nodi a oes gan aelwyd y rhai a holwyd fynediad i'r rhyngwyd (Tabl 41).

Tabl 41 - P'un a oes gan aelwyd fynediad i'r rhyngwyd (canran) ar gyfer pob un o'r chwe ardal awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru ar gyfer 2018/19 a 2021/22 ([Llywodraeth Cymru, 2022](#)).

Ardal	2018/19	2021/22
Conwy	86	91
Sir Ddinbych	88	92
Sir y Fflint	85	92
Gwynedd	85	87
Ynys Môn	84	91
Wrecsam	84	92

Mae'r tabl hwn yn dangos bod mynediad cartref i'r rhyngwyd yn amrywio rhywfaint ledled y rhanbarth o 87% (Gwynedd) i 92% (Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam). Mae hyn wedi cynyddu ers adroddiad cydraddoldeb diwethaf Gogledd Cymru lle'r oedd y ganran yn amrywio o 84% i 88% yn 2018/19.

Mae yna hefyd ddata o Arolwg Cenedlaethol Cymru sy'n edrych p'run ai oedd y rhai a arolygwyd yn defnyddio'r rhyngwyd fel y dangosir yn y tabl isod (Tabl 42).

Tabl 42 – P'run ai yn defnyddio'r rhyngwyd (gan gynnwys Teledu Smart a dyfeisiau llaw) (canran) ar gyfer pob un o'r chwe ardal awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru ar gyfer 2018/19 a 2021/22 ([Llywodraeth Cymru, 2022](#)).


Ardal	2018/19	2021/22
Conwy	88	93
Sir Ddinbych	90	93
Sir y Fflint	89	94
Gwynedd	87	91
Ynys Môn	86	91
Wrecsam	86	93

Mae'r tabl hwn yn dangos cynnydd yn nefnydd y rhyngwyd ym mhob ardal awdurdod lleol rhwng 2018/19 a 2021/22, gyda defnydd o'r rhyngwyd yn 2018/19 yn amrywio o 86% i 90% a'i ddefnydd yn 2021/22 yn amrywio o 91% i 94%.

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi mai'r bobl sydd mewn mwy o berygl o gael eu hallgau'n ddigidol yng Nghymru yw; oedolion hŷn (er bod defnydd oedolion hŷn o'r rhyngwyd yn cynyddu), pobl anabl neu â chyflyrau iechyd tymor hir, pobl â chyrhaeddiad addysgol is, pobl neu deuluoedd ag incwm is, poblogaethau gwledig, siaradwyr Cymraeg, pobl nad yw Saesneg yn iaith gyntaf iddynt, pobl sy'n ynysig yn gymdeithasol neu'n unig a phobl sy'n ddigartref ([Llywodraeth Cymru, di-ddyddiad](#)).

### 9.2.3 Rhwystrau i Fynediad Ariannol a Bregusrwydd i Dwyll

Dangosir nifer yr achosion honedig o gam-drin ariannol a adroddwyd ar gyfer oedolion 65 oed a throsodd yn ardaloedd awdurdod lleol Gogledd Cymru yn y ffigur isod (Ffigur 84). Mae'r data ar gyfer y flwyddyn 2018/19, gan nad yw'n cael ei ddiweddarau mwyach a dyma'r flwyddyn ddiweddaraf y casglwyd y data hwn.



Ffigur 84 – Nifer yr achosion honedig o gam-drin ariannol a adroddwyd ar gyfer oedolion 65 oed a hŷn yn 2018/19 ([Llywodraeth Cymru, 2019](#)).


Cafodd cyfanswm o 298 achos honedig o gam-drin ariannol eu hadrodd ar gyfer oedolion 65 oed a hŷn yn 2018/19 yng Ngogledd Cymru. Roedd mwy o ddiodefwyr benywaidd (169) na gwrywaidd (129) ledled Gogledd Cymru (57% a 43% yn y drefn honno). Roedd data adroddiad cydraddoldeb blaenorol Gogledd Cymru yn dyddio o 2017/18 a nododd 282 achos honedig gan gynnwys 182 o ddiodefwyr benywaidd a 100 o ddiodefwyr gwrywaidd (65% a 35% yn y drefn honno).

Wrth ddadansoddi'r data ar lefel awdurdod lleol, yn 2018/19 roedd mwy o ferched na dynion yn ddiodefwyr honedig ym mhob ardal leol heblaw Wrecsam lle roedd mwy o ddynion na merched yn ddiodefwyr honedig. Yn 2017/18 roedd mwy o ferched na dynion yn ddiodefwyr honedig ym mhob ardal awdurdod lleol.

### 9.2.4 Mynediad at Ddiwylliant, Hamdden a Chwaraeon

Canfuwyd data ychwanegol yn edrych ar fynediad at ddiwylliant a hamdden yng Ngogledd Cymru na chafodd ei gynnwys yn yr adroddiad blaenorol, fel y dangosir yn y ffigur isod (Ffigur 85).






Ffigur 85 - Canran y bobl (16+) sy'n mynychu neu gymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydau diwylliant neu dreftadaeth deirgwaith neu fwy y flwyddyn yn ôl ardal awdurdod lleol yn 2017/18 a 2019/20 ([Llywodraeth Cymru, 2022](#)).


Mae'r data hwn yn dangos bod canran yr ymatebwyr sy'n mynychu neu gymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydau, diwylliant neu dreftadaeth deirgwaith neu fwy y flwyddyn wedi lleihau ym mhob ardal awdurdod lleol heblaw Gwynedd rhwng 2017/18 a 2019/20. Yr ardal leol â'r ganran uchaf yn 2019/20 oedd Sir y Fflint (74%) a'r isaf oedd Gwynedd (68%).

Gellir dadansoddi'r data hwn o 2019/20 fesul rhyw ac oedran fel ddangosir yn y ffigurau isod (Ffigur 86 ac 87).



Ffigur 86 - Canran y bobl (16+), gwrywod a benywod sy'n mynychu neu gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliant celfyddydau neu dreftadaeth deirgwaith neu fwy y flwyddyn fesul ardal awdurdod lleol yn 2019/20 ([Ll. Cymru, 2022](#)).


Roedd mwy o ferched na dynion yn mynychu neu gymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydau, diwylliant neu dreftadaeth deirgwaith neu fwy y flwyddyn ym mhob ardal heblaw Conwy. Roedd y bwch mwyaf yn Wrecsam lle roedd 72% o fenywod a 66% o wrywod yn mynychu neu gymryd rhan.



Ffigur 87- Canran y bobl sy'n mynychu neu gymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydau, diwylliant neu dreftadaeth deirgwaith neu fwy y flwyddyn fesul ardal awdurdod lleol yn 2019/20 fesul oedran ([Llywodraeth Cymru, 2022](#)). Noder – ni chynhwyswyd data ar gyfer grŵp oedran 16-24 gan nad yw'n ddiabynadwy.

O'r grwpiau oedran a ddangosir yn y ffigur uchod, roedd y ganran uchaf o bresenoldeb neu gyfranogiad yn naill ai'r oedran 25-44 (Conwy, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn) neu 45-64 (Sir Ddinbych) neu'r ddau (Wrecsam). Roedd y ganran isaf yn y grŵp oedran 75+ ym mhob ardal awdurdod lleol.


Roedd adroddiad cydraddoldeb blaenorol Gogledd Cymru yn mesur cyfranogiad mewn chwaraeon neu ymarfer corff drwy gyfranogiad oedolion yn gwneud chwaraeon neu ymarfer corff yn ystod y pedair wythnos ddiwethaf, a nodir y data hwn yn ogystal â'r data mwy diweddar ar gyfer y mesur hwn yn y ffigur isod (Ffigur 88).



Ffigur 88 - Canran y bobl (16+) gymerodd ran mewn unrhyw chwaraeon neu weithgaredd corfforol yn ystod y 4 wythnos ddiwethaf ([Llywodraeth Cymru, 2022](#)).

Mae'r data yn dangos bod canran y bobl gymerodd ran mewn unrhyw chwaraeon neu weithgaredd corfforol yn ystod y 4 wythnos diwethaf wedi cynyddu mewn pedair o ardaloedd awdurdod lleol Gogledd Cymru (Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, a Wrecsam) a gostwng mewn dwy ardal leol (Conwy ac Ynys Môn).

Roedd dadansoddiad pellach o'r data hwn fesul nodwedd (rhywedd ac oedran) ar gael ar gyfer yr adroddiad blaenorol, fodd bynnag nid yw hyn ar gael mwyach. Felly, canfuwyd data amgen yn mesur cyfranogiad mewn chwaraeon neu ymarfer corff y gellir eu dadansoddi fesul nodwedd. Mae'r ffigur isod yn nodi canran y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon dair gwaith neu fwy yr wythnos (Ffigur 89).




Ffigur 89 – Canran y bobl (16+) gymerodd ran mewn gweithgareddau chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos yn 2018/19 a 2021/22 ([Llywodraeth Cymru, 2022](#)).

Yn 2021/22 roedd y ganran uchaf o bobl gymerodd ran mewn gweithgareddau chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos yn Wrecsam (40%) a Gwynedd (39%) gyda'r isaf yng Nghonwy ac Ynys Môn (27% ill dau).

Mae'r data hwn hefyd yn dangos y bu cynnydd yng nghanran y bobl gymerodd ran mewn gweithgareddau chwaraeon rhwng 2018/19 a 2021/22 mewn pedair o ardaloedd awdurdod lleol Gogledd Cymru (Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, a Wrecsam) a gostyngiad mewn dwy ardal leol (Conwy ac Ynys Môn).


Yn anffodus, dim ond fesul rhywedd yr oedd modd dadansoddi'r data hwn a dangosir hyn yn y ffigur isod (Ffigur 90).



Ffigur 90 - Canran y bobl (16+) sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos, cyfanswm ac wedi'u rhannu fesul rhywedd, yn 2021/22 ([Llywodraeth Cymru, 2022](#)).

Yn 2021/22 cymerodd mwy o ddynion na merched ran mewn gweithgareddau chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos ym mhob ardal awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru ac eithrio Ynys Môn, lle roedd mwy o ferched yn cymryd rhan na dynion.

Mae yna hefyd ddata cyfranogiad mewn chwaraeon ymhlith disgyblion (Blynyddoedd 3 i 11) ar gael o Arolwg Chwaraeon Ysgol, Chwaraeon Cymru; ni chafodd hyn ei gynnwys yn yr adroddiad blaenorol. Dangosir y canlyniad ar gyfer pob ardal leol yn y ffigur isod (Ffigur 91).



Ffigur 91- Canran y disgyblion ym Mhartneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru a phob ardal awdurdod lleol sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos yn 2022 ([Chwaraeon Cymru, 2022](#)).

Mae canlyniadau'r arolwg hwn yn nodi bod 39.1% o ddisgyblion Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru yn cymryd rhan mewn chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos yn 2022. Roedd cyfranogiad cyffredinol ar ei uchaf yn Sir y Fflint (42.7%) a'r isaf yn Wrecsam (36.4%) a Chonwy (39.7%). Ar draws Ardal Ranbarthol Gogledd Cymru ac ym mhob ardal awdurdod lleol roedd cyfranogiad yn uwch ym Mlynnyddoedd 7 i 11 na Blynnyddoedd 3 i 6.

Mae data ar gael yn dadansoddi'r data hwn fesul rhai o'r nodweddion gwarchoddedig ar gyfer Gogledd Cymru, a dangosir hyn yn y tablau isod (Tabl 43 i 45).

Tabl 43 - Canran y disgyblion gyda a heb anabledd neu amhariad ym Mhartneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon dair gwaith neu fwy yr wythnos yn 2022 ([Chwaraeon Cymru, 2022](#)).

	Gydag anabledd neu amhariad	Heb anabledd neu amhariad
Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru	38%	40%

Ym Mhartneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru, nododd cyfran ychydig yn uwch o ddisgyblion heb anabledd neu amhariad eu bod yn cymryd rhan mewn chwaraeon dair gwaith neu fwy yr wythnos yn 2022 na disgyblion a nododd anabledd neu amhariad (40% o'i gymharu â 38%).

Tabl 44 - Canran y disgyblion ym Mhartneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon dair gwaith neu fwy yr wythnos fesul cefndir ethnig yn 2022 ([Chwaraeon Cymru, 2022](#)).

	Asiaidd	Du	Grŵp Ethnig Cymysg neu Luosog	Gwyn	Arall
Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru	34%	37%	47%	40%	38%

Ym Mhartneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru yn 2022, roedd disgyblion sy'n dynodi'u hunain fel Grŵp Ethnig Cymysg neu Luosog yn fwyaf tebygol o ddweud eu bod yn cymryd rhan mewn chwaraeon dair gwaith neu fwy yr wythnos (47%). Y ganran isaf oedd disgyblion sy'n dynodi'u hunain yn Asiaidd, Asiaidd Gymreig neu Asiaidd Brydeinig.

Tabl 45 – Canran y disgyblion ym Mhartneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon dair gwaith neu fwy yr wythnos fesul rhywedd ([Chwaraeon Cymru, 2022](#)).

	Bechgyn	Genethod	Adnabod fel "Arall"
Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru	43%	36%	23%

Ym Mhartneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru yn 2022, roedd bechgyn yn fwyaf tebygol o ddweud eu bod yn cymryd rhan mewn chwaraeon dair gwaith neu fwy yr wythnos (43%) na merched (36%), gyda disgyblion yn nodi eu bod yn 'arall' y lleiaf tebygol (23%).

### 9.3 Preifatrwydd a Gwylidwriaeth

#### 9.3.1 Defnyddio'r Rhyngwyd ac Ymwybyddiaeth o Osodiadau Preifatrwydd

Fel yn yr adroddiad blaenorol, yn methu canfod data lleol perthnasol i ategu'r drafodaeth yn 'A yw Cymru'n Decach (2018)?'.

#### 9.3.2 Trin Data Personol

Fel yn yr adroddiad blaenorol, yn methu canfod data lleol perthnasol i ategu'r drafodaeth yn 'A yw Cymru'n Decach (2018)?'.

### 9.4 Cydlyniant Cymdeithasol a Chymunedol

#### 9.4.1 Ymddiriedaeth ac Ymdeimlad o Berthyn yn y Gymdogaeth Leol

Mae data ar gael o Arolwg Cenedlaethol Cymru yn edrych ar p'run ai yw pobl 16 oed a throsodd yn fodlon â'u hardal leol fel lle i fyw; dangosir y data hwn yn y tabl isod (Tabl 46).

Tabl 46 - Canran y bobl 16+ oed sy'n fodlon â'u hardal leol fel lle i fyw ([Llywodraeth Cymru, 2022](#)).

Ardal	2018/19	2021/22
Conwy	94	93
Sir Ddinbych	91	95
Sir y Fflint	81	85
Gwynedd	89	92
Ynys Môn	88	93
Wrecsam	82	88

